



Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil:

Adolygiad o gyfleoedd ar gyfer
gyrfaoedd mewn iechyd a gofal
cymdeithasol yng Nghymru

Chwefror 2022



Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r adroddiad hwn ar gyfleoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, sydd yn ganlyniad i brosiect ar y cyd rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gan weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r adroddiad yn gosod allan nifer o argymhellion ar gyfer gwella cyfleoedd i ymchwilwyr yng Nghymru ddilyn gyrfaedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymchwil yn gryfach nag y bu erioed, ac mae'r rhan y mae ymchwil wedi ei chwarae mewn darganfod triniaethau a datblygu brechiadau gydol pandemig coronafeirws wedi dangos yn glir bod ymchwil yn bwysicach yn awr nag y bu erioed.

Mae ymrwymiad y Llywodraeth i ymchwil a gyrfaedd mewn ymchwil yn amlwg ym mhob rhan o *Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (LIC, 2018)*, sydd yn tanlinellu pwysigrwydd ymchwil a sicrhau amgylchedd ymchwil cefnogol ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Un o'r deg egwyddor ar gyfer hyrwyddo a thrawsnewid yw canfod tystiolaeth a defnyddio ymchwil, gwybodaeth, dysg ac addysg i ddeall beth sy'n gweithio, dysgu a defnyddio arloesedd a gwelliannau er mwyn datblygu a gwerthuso gwell offer a dulliau gweithio.

Mae rôl gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn hyn yn hanfodol. Un o amcanion allweddol *Cymru Iachach* yw dod â'r holl gyfryngau newid hyn at ei gilydd, fel bod ein holl system iechyd a gofal cymdeithasol yn rhan ohono. Dylai pawb sydd yn gweithio yn ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gael y cyfle i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad ar gyfer gwell dulliau gweithio, ac hefyd i gynnig cyfleoedd i staff gyfuno ymchwil gyda'u rôl mewn clinigau a meddygfeydd.

Mae angen datblygu perthnasoedd gyda phartneriaid pwysig, gan gynnwys er enghraifft y prifysgolion a diwydiant, a rheoli'r perthnasoedd hyn yn dryloyw, gyda hyder a sicrwydd. Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru drefniadau partneriaeth gyda phrifysgolion, drwy'r Byrddau Iechyd Prifysgol neu'r Byrddau Iechyd Addysgu.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r GIG yng Nghymru wedi gweithio'n fwy hyderus gyda diwydiant, gyda chefnogaeth polisi Llywodraeth Cymru a mentrau fel Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae hyn hefyd yn gydnaws gydag egwyddorion Strategaeth Ddiwydiannol y DU sef: *Life Sciences Sector Deal 2 (2018)* ac hefyd *Life Sciences Sector Deal 1 (2017)*. Yn achos gofal cymdeithasol, mae awdurdodau lleol yn gweithio'n aml gyda sefydliadau yn y sector annibynnol a'r trydydd sector, ac mae rhai wedi datblygu cysylltiadau gyda phrifysgolion mewn rhai meysydd ymchwil penodol ond nad oes ganddynt hyd yma yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer sefydlu partneriaethau ffurfiol i'r un graddau ag sydd gan y GIG.

Erbyn hyn caiff ymarfer ar sail tystiolaeth ei gydnabod yn eang fel yr arf allweddol ar gyfer gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gwybod bod gan ymchwil nid yn unig fanteision academaidd ond ei fod hefyd ynghlwm yn uniongyrchol wrth ganlyniadau gwell ar gyfer cleifion yn ogystal â theuluoedd ac unigolion sydd yn ddibynnol ar ofal a chefnogaeth. Mae swm cynyddol o dystiolaeth yn arddangos pa mor fanteisiol yw bod sefydliadau ymchwil yn weithredol – er enghraifft, pan fydd ysbytai yn rhan flawnllaw o ymchwil, mae gan gleifion well canlyniadau. Mae hyd yn oed gleifion nad ydynt eu hunain yn rhan o ymchwil yn cael mantais o fod mewn ysbyty ymchwil weithredol.

Er mwyn hwyluso'r defnydd o dystiolaeth yn ein gwasanaethau cyhoeddus, mae angen i ni annog diwylliant ymchwil o fewn sefydliadau sydd yn darparu iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu amgylchedd lle caiff gweithwyr proffesiynol eu hannog i ddefnyddio ymchwil, datblygu eu hymchwil eu hunain ac mewn rhai achosion, mynd ymhellach a dilyn gyrfa mewn ymchwil.

Mae llawer o fanteision ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol mewn dilyn gyrfa ymchwil gan eu bod yn cael y cyfle i wella gofal i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth trwy gynhyrchu dulliau newydd o atal, canfod a thrin afiechyd, yn ogystal â dulliau o hyrwyddo annibyniaeth a llesiant. Gall ymwneud uniongyrchol gyda'r canfyddiadau diweddaraf arwain at ysgogiad deallusol gydol oes i'r rhai sydd â diddordeb mewn gyrfaedd mewn ymarfer ac ymchwil - a mwy o amrywiaeth o gymharu â gwaith ymarferol llinell flaen yn unig. Mae dilyn gyrfaedd ymchwil yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad a dilyniant personol, gyda'r cyfle i adeiladu sgiliau a galluoedd newydd.

Bydd gweithwyr proffesiynol ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn cael cyfleoedd i hyrwyddo newid diwylliant o fewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfleoedd hefyd ar gyfer cydweithio a rhwydweithio, yn genedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhai hyn yn swyddogaethau parchus ac yn aml yn cario proffil uwch. Mae gyrfaedd mewn ymchwil yn fuddiol iawn, lle caiff gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eu herio gan ennill hyder o wybod eu bod wedi gwneud gwahaniaeth i ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae nifer fawr o fanteision i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol o ran datblygu a chefnogi eu gweithlu i gymryd rhan mewn ymchwil a dilyn gyrfaedd mewn ymchwil. Mae bod yn ymchwil-weithredol yn cynyddu gallu'r sefydliad i ddenu staff o'r radd orau, yn ogystal â gwella cyfraddau cadw staff. Yn ogystal â'r dylanwad y mae bod yn sefydliad ymchwil-weithredol ei gael ar ddeilliannau iechyd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, mae'n fanteisiol cael academyddion clinigol ac ymarferol ym mhob rhan o'r GIG. Gall rolau o'r fath ymgymryd ag ymchwil hanfodol a darparu addysg a hyfforddiant, ochr yn ochr gyda gweithio gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth ar y llinell flaen. Maent hefyd yn cyflwyno safbwynt unigryw ar ymchwil ac yn gwneud cyfraniad hanfodol tuag at bob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Heblaw gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae academyddion clinigol ac ymarferol hefyd yn cynnig cymorth enfawr i gymdeithas, trwy ymchwilio materion iechyd a chymdeithasol sydd o bryder i gymdeithas yn gyffredinol. Maent hefyd yn gwella ymchwil ac ymarfer trwy gyflawni gwaith clinigol/ymarferol hanfodol a gwella gofal cleifion a defnyddwyr gwasanaeth trwy gyfrwng technegau blaengar, yn ogystal ag ysbrydoli gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i gymryd rhan mewn ymchwil trwy eu harweiniad. Yn ogystal, mae buddsoddiad mewn ymchwil yn arwain at fudd economaidd i'r GIG ac awdurdodau lleol a gellir ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau llinell flaen.

Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu'r cyfleoedd ymchwil cyfredol mewn hyfforddiant a datblygiad, cyllid a chefnogaeth ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn adolygu'r cyfleoedd ar gyfer gyrfaedd mewn ymchwil ledled Cymru a'r DU. Mae'n edrych ar gynlluniau ariannu, bylchau mewn cyfleoedd ariannu cyfredol ac awgrymiadau sut i lenwi'r bylchau hyn, yn ogystal ag awgrymu bod angen buddsoddi rhagor o arian mewn gyrfaedd ymchwil ar gyfer pob maes, ar draws pob sector ac ar bob cam o yrfa ymchwil. Mae'r adroddiad yn amlygu manteision gyrfaedd mewn ymchwil, yn ogystal â'r rhwystrau, ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella cyfleoedd mewn gyrfaedd ymchwil yng Nghymru.

Mae'r adolygiad hwn o gyfleoedd gyrfa mewn ymchwil yn diweddu gyda 17 o argymhellion ar gyfer gwella cyfleoedd i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gyda chefnogaeth eang gan Lywodraeth Cymru, arianwyr a rhanddeiliaid.

Caiff yr argymhellion hyn eu dilyn yn ystod 2022/23 a thu hwnt trwy gydweithrediad rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddwn yn cydweithio hefyd i lunio cynllun gweithredu, ac i gynnig arweiniad cadarn yn y fenter hon. Rydym yn benderfynol o wella cyfleoedd ar gyfer gyrfaedd mewn ymchwil i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Cyfarwyddwr – Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru



Prif Weithredwr – Gofal Cymdeithasol Cymru



Cyfarwyddwr Meddygol – Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cynnwys	4
1. Crynodeb gweithredol.....	6
2. Cyflwyniad	8
3. Prosiect llwybrau gyrfaedd ymchwil.....	9
4. Adolygiad y llwybrau gyrfaedd ymchwil	10
5. Ymchwil blaenorol	11
6. Cyfleoedd hyfforddi a datblygu ymchwil yng Nghymru	15
7. Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ledled y DU	20
7.1 Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad oddi wrth arianwyr llywodraeth y DU .	20
7.2 Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad oddi wrth gynghorau ymchwil ac elusenau.....	23
7.3 Gweithio mewn partneriaeth ledled y DU	24
8 Cefnogaeth ac arweiniad ymchwil yng Nghymru	25
8.1 Cyfleoedd, cyllid a chefnogaeth a dderbynnir gan ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru	27
8.2 Defnyddio cefnogaeth sefydliadau	28
8.3 Cyfleoedd defnyddiol ar gyfer y dyfodol	29
9 Bylchau mewn cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad yng Nghymru.....	31
10 Hyrwyddwyr datblygu gyrfa ymchwil yng Nghymru.....	33
11 Rhwystrau i ddatblygu gyrfa ymchwil yng Nghymru	34
12 Gwelliannau i lwybrau gyrfaedd ymchwil yng Nghymru	36
12.1 Mwy o arian ar gyfer gyrfaedd ymchwil.....	38
12.2 Hyrwyddo amser ar gyfer ymchwil	39
12.3 Llwybr gyrfa eglur.....	40
12.4 Cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth.....	40
12.5 Cynlluniau mentora a modelau rôl	41
12.6 Cyfleoedd gyrfa ddiogel yn y tymor hir.....	42
12.7 Swyddi clinigol / meddygol ac academaidd.....	43
12.8 Gwell cydweithredu ar seilwaith	44
12.9 Sefydlu ymchwil fel rhan o'r GIG / awdurdodau lleol.....	45
12.10 Codi ymwybyddiaeth /proffil ymchwil.....	46
13 Argymhellion ar gyfer y dyfodol: Gweledigaeth newydd ar gyfer llwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru	47

Atodiad 1	49
Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Llywio Prosiect: Mehefin 2021	49
Atodiad 2:	51
Y rhai a gyfwelwyd ar gyfer Cam 1	51
Atodiad 3	52
Cwestiynau ar Lwybrau Gyrfaoedd Ymchwil ar gyfer Arianwyr / Rhanddeiliaid ...	52
Atodiad 4	55
Rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer Cam 2a	55
Atodiad 5	57
Arolwg o Lwybrau Gyrfaoedd Ymchwil ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol	57
Atodiad 6	60
Arolwg Ymchwilwyr	60
Atodiad 7	64
Adborth perthnasol i gyfleoedd ariannu ar draws y DU a gweithio mewn partneriaeth	64

Gwneud i yrfa mewn ymchwil weithio: adolygiad o lwybrau gyrfaedd ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

1. Crynodeb gweithredol

Prosiect ar y cyd yw Prosiect Llwybrau Gyrfaedd Ymchwil rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), gan weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r prosiect yn anelu at adolygu llwybrau datblygu ymchwil o ran hyfforddiant a datblygiad gyrfaedd ar gyfer cymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan archwilio os ydynt yn gymwys ar gyfer y pwrpas ac ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud.

Mae enghreifftiau o ymchwil blaenorol yn yr ardal hon o Gymru ac ar draws y DU yn darparu cyd-destun ac mae canfyddiadau ymchwil blaenorol yn gydnaws gyda chanfyddiadau'r arolwg hwn.

Mae ymchwil i gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys pump prif gynllun a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion i ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil, dau yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol (Ysgoloriaeth/Cymrodoriaeth) a dau yn canolbwyntio ar ofal iechyd (Ysgoloriaeth/Cymrodoriaeth) a'r pumed cynllun yn anelu at ddarparu amser diogel ar gyfer staff y GIG (Dyfarniad Amser Ymchwil GIG).

Hefyd, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu Ymchwil Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru (RCBC); yn ogystal â Menter Cynyddu Gwaith Ymchwil ar gyfer datblygu gwaith ymchwil mewn gofal cymdeithasol; ac hefyd mae'n cyd-ariannu PhDs mewn gofal cymdeithasol trwy'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) Partneriaeth Hyfforddiant Meddygol Cymru (DTP). Mae HEIW yn ariannu Trac Academaidd Clinigol Cymru (WCAT) ar gyfer meddygon. Mae gan ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fynediad hefyd at Gymrodoriaethau i Bawb (NIHR).

Pan fyddwn yn cymharu'r cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru gyda'r hyn sydd ar gael yn Lloegr, mae anghysondeb yn y buddsoddiad a'r cyfleoedd ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol o safbwynt llwybrau gyrfaedd ymchwil, er nad yw hynny wedi ei amlygu yn yr adolygiad hwn.

Mae cynghorau ymchwil ac elusennau ledled y DU yn cynnig ystod eang o gynlluniau ar gyfer gyrfaedd ymchwil a gall ymgeiswyr o Gymru fanteisio ar y cyfan o'r rhai hyn.

Mae dymuniad cynyddol am gydweithio ar draws y DU a gwella cydlynid mewn darparu cyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gan ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fynediad at ystod eang o gyfleoedd, cyllid a chefnogaeth ar gyfer eu gyrfaoedd ymchwil, megis hyfforddiant ymchwil a chefnogaeth ar gyfer graddau PhD a Meistri, er bod rhai nad ydynt wedi derbyn unrhyw gefnogaeth. Y gefnogaeth fwyaf defnyddiol ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrth iddynt ddatblygu gyrfa ymchwil yw hyfforddiant ymchwil, amser i gyflawni ymchwil a chydabyddiaeth am gymwysterau.

Roedd adborth gan randdeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar y cynlluniau ariannu presennol, bylchau mewn cyfleoedd ariannu cyfredol ac awgrymiadau sut i lenwi'r bylchau hyn.

Mae ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwirioneddol werthfawrogi'r cyfle i gyfranogi mewn Cymrodoriaethau NIHR. Awgryma'r adborth y dylai Cymru hefyd barhau i chwilio ymhellach am fuddsoddiadau gan arianwyr ledled y DU ac hefyd arian cyfatebol trwy sefydliadau o fewn Cymru.

Roedd adborth yn canolbwyntio ar yr angen i wneud cynlluniau ariannu yn fwy deniadol trwy hyrwyddo cymesuredd ad-dalu rhesymol gydag ad-daliadau cyflogau a chynyddu niferoedd y cynlluniau.

Roedd ymatebion hefyd yn awgrymu bod angen buddsoddi mwy o arian mewn gyrfaoedd ymchwil mewn iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol a gofal o fewn y GIG ei hun, tra hefyd yn canolbwyntio ar y gwahaniaeth mewn ariannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylai fod mwy o gyfleoedd, a chynlluniau wedi eu targedu neu wedi eu clustnodi ar gyfer ar gyfer swyddogaethau sydd wedi eu tan gynrychioli megis gweithwyr cymdeithasol, nyrsus, bydragedd a gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol (NMAHPS), deintyddion a staff datblygu ymchwil, sydd yn haeddu'r cyfleoedd sydd ar gael i weithwyr proffesiynol eraill.

Roedd yr adborth hefyd yn awgrymu'r angen i fuddsoddi mwy o arian ar draws gyrfaoedd ymchwil ar bob lefel, yn ogystal â rhagor o fuddsoddiad yn enwedig mewn lefel cynnar ôl-feddygaeth (canol gyrfa), ac hefyd mewn lefelau cyn-feddygaeth, a darpariaeth ar gyfer cyfleoedd i rai mewn safleoedd uwch. Mae cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer ymchwilwyr yn y cyfnod trosglwyddo rhwng cyfnodau gyrfa yn bwysig iawn, a'r un mor bwysig yw arian pontio i gefnogi hyn.

Dylai cyfleoedd ariannu ymchwil fod ar gael i bob disgyblaeth, ar draws pob sector, ac ar bob cam o lwybr gyrfa ymchwil. Mae cyfleoedd cyfartal yn wirioneddol bwysig, yn ogystal â hyblygrwydd i ymateb i heriau fel y byddant yn ymddangos.

Dewiswyd 55 o alluogwyr o blith rhanddeiliaid ac ymchwilwyr a iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer datblygu gyrfa ymchwil, a'r galluogwyr mwyaf amlwg yn derbyn cyllid ac adnoddau, amser diogel ar gyfer ymchwil, cefnogaeth gan y sefydliadau oedd yn eu cyflogi, mentoriaid a modelau rôl, a chefnogaeth, cyngor ac arweiniad.

Nodwyd 59 rhwystr i yrfa ymchwil gan y rhanddeiliaid a'r ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r rhwystrau mwyaf amlwg oedd cyllid annigonol, diffyg amser diogel ar gyfer ymchwil i gweithwyr proffesiynol ar gyfer ymchwil iechyd a gofal, blaenoriaethau clinigol/meddygol, diwylliant ymchwil gwael ymhlith awdurdodau lleol a diffyg cefnogaeth oddi wrth y sefydliadau oedd yn eu cyflogi.

Cynigiwyd 58 awgrym ar gyfer gwella llwybrau gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru gan rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Y gwelliannau mwyaf amlwg oedd rhagor o gyllid ar gyfer gyrfaoedd ymchwil, neilltuo amser diogel ar gyfer ymchwil, llwybrau gyrfa eglur, cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth, cynlluniau mentora a modelau rôl, cyfleoedd gyrfa tymor hir a diogel, swyddi clinigol/academaidd, gwell cydweithrediad sylfaenol, cynnwys ymchwil yng ngwaith awdurdodau lleol / GIG a chodi ymwybyddiaeth ynghylch ymchwil a phroffil ymchwil.

Mae prosiect Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil yn cynnig 17 o argymhellion er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer llwybrau gyrfaoedd ymchwil i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ar draws nifer o feysydd gan gynnwys Strategaeth, Cyllido ac Arweinyddiaeth, Seilwaith, Diwylliant & Ecosystemau a Chyfathrebu ac Ymgysylltu.

2. Cyflwyniad

Mae cefnogi gyrfaoedd ymchwil i bobl yn y gymuned yn rhan allweddol o wireddu cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sef:

- Hyrwyddo, cefnogi a darparu trosolwg cyfunol dros ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau ei fod o'r ansawdd gwyddonol rhyngwladol gorau
- Sicrhau bod ymchwil yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Sicrhau bod ymchwil yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac ymarfer mewn ffyrdd sydd yn gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru

Mae gan Gwella Addysg Iechyd Cymru (HEIW) rôl arweiniol mewn addysgu, hyfforddi, datblygu a ffurfio gweithlu gofal iechyd yng Nghymru, sicrhau bod gan y gwasanaethau gofal iechyd y staff cywir, gyda'r sgiliau cywir, i ddarparu gofal iechyd o'r radd flaenaf ar gyfer pobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae eu cynllun blynyddol

(2021/22) yn amlinellu eu nôd strategol o wella llwybrau gyrfaoedd a chyfleoedd addysg ar gyfer y gweithlu clinigol, academiaidd ac ymchwil.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn anelu at wneud gwahaniaeth positif i ofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn cynllunio i gyflawni hyn trwy gynyddu hyder ymysg y gweithlu, arwain a chefnogi datblygiad gweithlu a gwella gofal cymdeithasol.

Gyda'i gilydd, mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, HEIW a Gofal Cymdeithasol Cymru genhadaeth gyfunol i gefnogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, canfod eu potensial, cefnogi unigolion i ddod yn arweinwyr ymchwil y dyfodol, ac ar yr un pryd cynyddu capasiti a phosibiliadau ymchwil yng Nghymru. Yn 2020, bu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a HEIW yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru gan gytuno i adolygu'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael yn gyfredol ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ac eraill sydd yn awyddus i ddilyn gyrfa mewn ymchwil iechyd a gofal, archwilio os ydynt yn addas i bwrpas ac ystyried gwelliannau er mwyn hyrwyddo'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Canlyniad yr adolygiad yw'r adroddiaad hwn ac mae'n cyflwyno cyfres o argymhellion i'w hystyried ar gyfer gwella llwybrau gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru.

3. Prosiect llwybrau gyrfaoedd ymchwil

Prosiect ar y cyd rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru and HEIW yw prosiect llwybrau gyrfaoedd ymchwil gan weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r prosiect yn anelu at lunio adolygiad o lwybrau hyfforddiant ymchwil a datblygiad gyrfa ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan archwilio os ydynt yn addas i'r pwrpas ac ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud.

Amcanion y prosiect oedd:

- a) Adnabod capasiti a gallu cyfredol cynlluniau a systemau datblygu yng Nghymru
- b) Cymharu'r ddarpariaeth yng Nghymru gyda'r hyn a ddarperir yng ngwledydd eraill y DU
- c) Archwilio'r hyn sydd yn wybyddus am effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol o ran datblygu a chynnal capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal.
- d) Datblygu cyfres o argymhellion ar gyfer y dyfodol o ran gwella'r trefniadau ar gyfer datblygu a chynnal capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal.

Roedd sgôp y prosiect yn eang ac yn cynnwys yr adolygiad o lwybrau datblygu a hyfforddi ar gyfer gyrfaoedd mewn ymchwil er mwyn datblygu a hyfforddi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ar draws pob disgyblaeth gan gynnwys – ond nid yn gyfyngedig i – staff meddygol, nyrsus, gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol, gwyddonwyr gofal iechyd, parafeddygon, fferyllwyr, gweithwyr cymdeithasol yn ogystal ag unrhyw ymchwilwyr anghlinigol eraill a'r rhai sydd yn gweithio ac yn ymchwilio o

fewn iechyd cyhoeddus, gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol. Gydol yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio'r termau 'ymchwilwyr iechyd a gofal' a 'pobl yn y gymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol' wrth gyfeirio at y gymuned amrwiol, aml-ddisgyblaethau ac aml-broffesiynol hon.

Nid yw sgôp y prosiect yn cynnwys staff rheoli a chyflawni ymchwil, sef y rhai sydd yn dewis dilyn llwybr archwilio egwyddor, llwybr cyflawni astudiaeth GIG neu lwybr gyrfa rheoli ymchwil. Yn hytrach, mae sgôp yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lwybr ymchwil arweiniol. Fodd bynnag, nid llwybrau gyrfa ar wahân yw'r rhai hyn gan eu bod yn uno ac yn gorgyffwrdd, ond mae cynlluniau ariannu eraill a chefnogaeth arall ar gyfer y rhai sydd yn dilyn llwybrau rheoli a darparu ymchwil.

Cafwyd trosolwg hefyd o'r Prosiect Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil gan Grŵp Llywio Prosiect a bu hyn o gymorth i lywio'r prosiect. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys aelodau o'r sefydliadau arweiniol - Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a HEIW - ac hefyd gynrychiolwyr allweddol o Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru (WG). Gellir gweld Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Prosiect yn Atodiad 1.

4. Adolygiad y llwybrau gyrfaodd ymchwil

Cynhaliwyd y prosiect mewn 4 cam rhwng Ionawr a Medi 2021:

- Cam 1: Adnabod a disgrifio capasiti a gallu presennol cynlluniau a systemau datblygu yng Nghymru ac ar draws y DU

Cynhaliwyd Cam 1 o'r Prosiect Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil rhwng Mawrth a Gorffennaf 2021 a'r nôd oedd mapio a chynnal ymchwil desg i adnabod a disgrifio capasiti a gallu presennol cynlluniau a systemau datblygu yng Nghymru ac ar draws y DU. Fel rhan o'r cam hwn, cynhaliwyd cyfweiliadau gydag arianwyr y DU – gweler Atodiad 2. Roedd yn ofynnol i bob un o'r arianwyr ateb y cwestiynau a nodir yn Atodiad 3.

- Cam 2a: Cysylltu gyda sefydliadau sy'n rhanddeiliaid er mwyn canfod pa gefnogaeth bellach sydd ar gael ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac adnabod themâu allweddol ar gyfer datblygu capasiti a gallu ymchwil.

Cynhaliwyd Cam 2a o'r Prosiect Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil rhwng Mehefin a Medi 2021 a'r nôd oedd cysylltu gyda sefydliadau sy'n rhanddeiliaid er mwyn canfod pa gefnogaeth bellach sydd ar gael ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac adnabod themâu allweddol ar gyfer datblygu capasiti a gallu ymchwil.

Fel rhan o'r cam hwn, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 33 o randdeiliaid – cyfweiliadau yn cymryd tua 45 munud - 1 awr gan ddefnyddio'r gyfres cwestiynau a welir yn Atodiad 4.

- Cam 2b: casglu barn ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cael adborth am y cyfleoedd, y gefnogaeth a'r profiadau a gawsant wrth ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil.

Cynhaliwyd Cam 2b o'r Prosiect Llwybrau Gyrfaedd Ymchwil yng Ngorffennaf 2021 gyda'r bwriad o gasglu barn ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cael adborth am y cyfleoedd, y gefnogaeth a'r profiadau a gawsant wrth ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil.

Fel rhan o'r cam hwn, cafodd arolwg ei lunio a'i ddsbarthu ymhlith aelodau'r Grŵp Llywio Prosiect (yn cynnwys HEIW a Gofal Cymdeithasol Cymru), yr holl randdeiliaid gafodd eu cyfweled fel rhan o gam 2a, canolfannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Uwch Arweinwyr Ymchwil, Arweinwyr Arbenigol, Cyfarwyddwyr Ymchwil a Datblygu - a chafodd yr arolwg ei hyrwyddo ym mwletin Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru dros nifer o wytnosau tra bu'n agored. Gellir gweld cwestiynau'r arolwg yn Atodiad 5.

Derbyniodd yr arolwg 186 o ymatebion, 63% oddi wrth ymatebwyr y GIG, 31% oddi wrth sefydliadau addysg uwch, 2% oddi wrth y sector gofal cymdeithasol, 2% gan gyflogwyr ar y cyd, a'r 2% sydd yn weddill yn anhysbys. Gellir gweld gwybodaeth bellach ar yr arolwg yn Atodiad 6, gan gynnwys eu sefydliadau cyflogi, profiad mewn ymchwil, gyrfaedd ymchwil hyd yma, rolau presennol mewn ymchwil a'u gobeithion ynghylch gyrfaedd ymchwil.

- Cam 3: Datblygu ac ymgynghori ar gyfres o argymhellion drafft ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol mewn datblygu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal.

Cafodd cyfres o argymhellion cychwynnol ei datblygu yn gynnar ym mis Awst, wedi ei llunio ar sail y canfyddiadau cychwynnol a chynhaliwyd trafodaeth ac ymgynghoriad arnynt ymhlith y Grŵp Llywio Prosiect. Aeth y Grŵp Llywio ymlaen i ddiwygio'r argymhellion ac ymgynghori arnynt hyd nes y cytunwyd ar y gyfres derfynol ym mis Hydref.

5. Ymchwil blaenorol

Er nad oedd yn fwrriad gan y prosiect i adolygu llenyddiaeth gyfredol ar yrfaedd ymchwil, mae rhai adroddiadau allweddol sydd werth eu nodi yng ngyd-destun yr adolygiad hwn. Mae *A Cross-Funder Review of Early-Career Clinical Academics: Enablers and Barriers to Progression* (IFF Ymchwil, 2015) yn adnabod y ffordd y mae

myfyrwyr meddygol a hyfforddeion clinigol yn datblygu diddordeb yn y lle cyntaf mewn gyrfaoedd academaidd clinigol, y llwybrau gyrfa y maent yn eu dilyn a'r cymorth a'r rhwystrau o ran dilyn gyrfa academaidd glinigol.

Mae *Ten years on: adapting and evolving to new challenges in developing tomorrow's health ymchwil leaders* (NIHR trainees co-ordinating centre, 2017) yn gosod allan y weledigaeth 15-20 mlynedd ar gyfer hyfforddiant academaidd yn y NIHR yn seiliedig ar egwyddorion ac argymhellion.

Mae *UK-Wide Survey of Clinical and Health Research Fellowships (2017)* - a luniwyd gan y Cyngor Ymchwil Meddygol ar ran 13 o arianwyr - gan gynnwys Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – yn rhoi trosolwg o fuddsoddiadau ledled y DU er mwyn cynhyrchu a chynnal y capasiti ar gyfer ymchwil clinigol, iechyd a iechyd cyhoeddus. Un o'r deilliannau a ddaeth yn sgil hyn oedd mabwysiau cynllun strategol ar y cyd gan y pedwar llywodraeth ar gyfer gyrfaoedd ymchwil clinigol ar draws adrannau a chyllidwyr yn y DU.

Canfu *What Ymchwilwyr Think About the Culture They Work In* (Wellcome, 2020) bod yna broblemau dybryd o fewn y diwylliant ymchwil, gan gynnwys rhai awgrymiadau er cefnogi gwelliannau, yn cynnwys: newidiadau i strwythurau ariannu, gwell cefnogaeth ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd a hyfforddiant er mwyn cryfhau rheolaeth a mentoriaeth.

Yna mae *Transforming health through innovation: Integrating the NHS and academia* (2020) – lle mae'r Academi Gwyddorau Meddygol yn gosod allan gyfres o gamau ar gyfer cyflawni chwe chanlyniad allweddol sydd yn hanfodol er mwyn gwella'r rhyngwyneb rhwng y GIG a sector academaidd ymchwil biofeddygol a iechyd gan gynnwys:

- Creu system gofal iechyd sydd yn gwir werthfawrogi ymchwil;
- Timau ymchwil gwir integredig ar draws academia a'r GIG;
- Darparu amser ymchwil diogel ar gyfer staff GIG sydd yn weithredol mewn ymchwil;
- Sicrhau bod curricula israddedig yn rhoi i staff gofal iechyd y sgiliau i ymgymryd ag ymchwil;
- Ymgorffori hyblygrwydd mewn llwybrau hyfforddi ôl-raddedigion;
- Symleiddio ymchwil trwy gyfuno swyddfeydd Ymchwil a Datblygu.

Mae *Creating time for ymchwil: identifying and improving the capacity of healthcare staff to conduct ymchwil* (Cancer Research UK, 2021) yn nodi pedwar o themâu cyffredinol ac yn cynnig deg o argymhellion i'w dilyn er mwyn cyflawni hyn dros y DU gyfan.

Mae *From the sticky floor to the glass ceiling and everything in between: A systematic review and qualitative study focussing on gender inequalities in Clinical Academic careers (2020)* yn ceisio archwilio'r rhwystrau a'r hwyluswyr i yrfaeodd academaidd clinigol, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau o ran rhywedd ac ethnigedd. Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys adnabod hwyluswyr a rhwystrau a wynebir gan feddygon a deintyddion ac yn dod i'r casgliad bod academyddion clicinigol yn wynebu anhawster i gerdded y llwybr academaidd clinigol a chadw cydbwysedd rhwng dyletswyddau clinigol a chwblhau ymchwil. Roedd hefyd yn argymhell bod arianwyr ymchwil yn ymrwymo i sefydlu sail cenedlaethol ar raddfa eang i hyrwyddo cynnwys ymchwil yng ngyrfaeodd academyddion clinigol yn y DU ac ymyrraethau i'w cefnogi.

Mae adroddiadau eraill yn canolbwyntio ar ddisgyblaethau penodol - megis *Nursing, midwifery and allied health clinical academic research careers in the UK* (Council of Deans, 2018) sydd yn tanlinellu bod gyrfaeodd ymchwil academaidd clinigol ar gyfer nyrsus, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd (NMAHPs) o bosibl heb eu datblygu yng Nghymru i'r un graddau ag yn Lloegr a'r Alban, a bod angen strategaeth ganolog gydlynol a chefnogaeth bellach ar gyfer ariannu ymchwil ôl-ddoethuriaeth.

Mae *Interventions and strategies aimed at clinical academic pathway development for nurses in the United Kingdom: A systematised review of the literature* (Henshall et al., 2021) yn adnabod ystod o raglenni, llwybrau ac offer, mesurau yn deilliaw o'r llwybrau, rhwystrau a hyrwyddwyr datblygiad llwybrau. Awgrymir y gall y canfyddiadau helpu datblygiad llwybrau ymchwil academaidd clinigol nyrsio yn rhyngwladol, trwy adnabod gyrrwyr allweddol ar gyfer llwyddiant. Nodir hefyd bod gweithredu llwybrau ymchwil academaidd clinigol yn brin ar draws y DU.

Nid y bwriad yw cyflwyno rhestr gyfansawdd o ymchwil blaenorol i lwybrau gyrfaeodd ymchwil ond yn hytrach rhoi blas o'r ymchwil cyfredol yn y maes hwn. Mae'n werth nodi bod mwyafrif yr adroddiadau allweddol a amlygir yma yn canolbwyntio ar lwybrau gyrfaeodd ymchwil o fewn cafnidir gofal iechyd, gyrfaeodd academaidd clinigol yn benodol, ac mewn rhai achosion – gyda ffocws ar nyrsus, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol iechyd, gan eithrio *What Ymchwilwyr Think About the Culture They Work In* (Wellcome, 2020) lle roedd y cyfranogwyr yn ymchwilwyr Prydeinig o feysydd gwyddorau biofeddygol neu fiolegol, gwyddorau eraill, gwyddorau cymdeithasol a dyniaethau.

Fe ddigwyddodd peth gweithgaredd ymchwil yn ymwneud â llwybrau gyrfaeodd ymchwil yng Nghymru hefyd . Ym mis Ionawr 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Graeme Reid i archwilio ymchwil a blaengaredd yng Nghymru oedd yn derbyn cyllid gan y Llywodraeth – ym Mehefin 2018 cafwyd adroddiad gyda thri argymhelliad yn ymwneud â buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn ymchwil yn y dyfodol. Cynhaliodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Meddygol archwiliad eang i ganfod sut yr oedd casgliadau Adolygiad Reid yn effeithio ar yr amgylchedd ymchwil

meddygol yng Nghymru a beth sydd raid digwydd eto cyn y bydd Cymru yn elwa oddiwrth y sgiliau a'r arloesedd o fewn amgylchedd ymchwil Cymru.

Mae tair blynedd wedi mynd heibio ers creu Adolygiad Reid ac mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd yn Chwefror 2021, *The Next Steps for Wales to Achieve its Potential in Medical Research: The Fifth Senedd Cross Party Group on Medical Ymchwil* yn tanlinellu mai un agwedd allweddol o amgylchedd ymchwil lwyddiannus yw y cyfle ar gyfer ymchwilwyr talentog i ddatblygu a'u sefydlu eu hunain. Fodd bynnag, mae gyrfaoedd mewn ymchwil ar y funud yn ansefydlog ac mae rhwystrau sylweddol i ymchwilwyr gyrfa gynnar allu datblygu. Mae'r adroddiad yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau rhag blaen i ddarparu cefnogaeth gryfach i yrfaoedd ymchwil yng Nghymru gan gynnwys y camau canlynol : a. Gwella argaeledd arian tymor hir ar gyfer ymchwilwyr; b. Gwella cyfleoedd gwaith i ymchwilwyr gyrfa gynnar ledled Cymru; c. Sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus i ymchwilwyr a chlinigwyr sydd yn ymgymryd ag ymchwil; d. Sicrhau bod cynllunio gweithlu'r GIG yn cymryd i ystyriaeth amser diogel ar gyfer ymchwil ar draws pob rôl er mwyn hyrwyddo'r diwylliant o fewn y GIG; e. Parhau i ariannu'r rhaglen Sêr Cymru a denu talent newydd i amgylchedd ymchwil Cymru.

Yn ychwanegol at hyn, mae nifer fawr o sefydliadau a grwpiau seilwaith wedi adolygu'r llwybrau gyrfaoedd ar gyfer eu sefydliadau a/neu ar gyfer eu disgyblaethau, er enghraifft papur trafod ar staff ymchwil CASCADE, oedd yn awgrymu bod agweddau a phrofiadau positif tua'r canol ond bod hefyd ansicrwydd ynghylch datblygu gyrfaoedd ymchwil, diogeledd a chynnydd.

Roedd canfyddiadau arolwg (Cymdeithas Staff Ymchwil Prifysgol Caerdydd 2020) (CURSA), o 127 o staff ymchwil ar draws Prifysgol Caerdydd yn tanlinellu'r tensiwn rhwng datblygiad a chynnydd ymchwilydd a diffyg llwybr ymchwil eglur cyfredol.

Cynhaliwyd Symposiwm Ymchwil Clinigol yn 2019 i archwilio'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran rôl academyddion clinigol o fewn gweithluoedd NMAHP, a sut y gellid datblygu hyn i gwrdd yn well ag anghenion ein proffesiynau a gofal cleifion yng Nghymru. O ganlyniad, cyflwynwyd adroddiad gyda chyfres o 13 argymhelliad oedd yn cynnwys yr angen am ddiffiniad o lwybr academaidd clinigol ym maes nyrsio, bydwreigaeth a gweithwyr proffesiynol (AHPs) ym maes iechyd, fframwaith genedlaethol ar gyfer cyflawni hyn a chyllid wedi ei anelu at hyfforddiant ymchwil a chyfleoedd ar gyfer NMAHPs, yn cynnwys hyfforddiant meddygol, cyn-ddoethurol ac ôl-ddoethurol.

Mae Coleg Brenhinol Meddygon yng Nghymru wedi cyflawni peth gwaith ar y testun, sef *Time for research: delivering innovative patient care yng Nghymru* (2019), sydd yn cynnwys cyfres o argymhellion megis y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r gymuned ymchwil feddygol er mwyn sicrhau bod staff y GIG yn cael amser diogel ar

gyfer ymchwil ac y dylai hwyluswyr ymchwil iechyd sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar gyfer datblygu sgiliau ymchwil.

Yn ddiweddar, ymgwymerwyd ag adolygiad yn canolbwyntio ar nyrsio a gyrfaoedd academaidd clinigol HPA (Macauley, Medi 2021) fel rhan o waith Bwrdd Ymchwil Canser Gweithwyr Proffesiynol Nyrsio a Iechyd a darganfuwyd bod angen datblygiad pellach o ran llwybrau academaidd clinigol yng Nghymru er mwyn gwella deilliannau ymchwil a gofal iechyd.

Nid bwriad yr enghreifftiau hyn yw darparu adolygiad cyfansawdd o ymchwil blaenorol yng Nghymru ond yn hytrach darparu peth cyd-destun ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae'r mwyafrif o ganfyddiadau'r adolygiad blaenorol hwn yn cydfynd â chanlyniadau'r adolygiad hwn, er fod y cyntaf ar lefel y DU gyfan neu'n canolbwyntio ar ddisgyblaethau penodol. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar Gymru ac mae iddo sgôp eang, yn cynnwys yr holl sectorau, disgyblaethau iechyd a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ar bob cam yn eu gyrfaoedd ymchwil. Yn ogystal, mae cynhyrchu adolygiad o lwybrau gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru yn rhoi cyfle i ddatblygu argymhellion penodol ar gyfer Cymru, er mwyn ein galluogi i symud ymlaen i greu llwybrau gyrfaoedd ymchwil cryfach ar draws holl faes iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Cyfleoedd hyfforddi a datblygu ymchwil yng Nghymru

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi buddsoddi mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu am dros ddegawd. Mae'r cyllid oddi wrth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn canolbwyntio ar ymchwil ar sail pobl a chleifion / defnyddwyr gwasanaeth lle mae'n ofynnol i'r ymchwil fod yn berthnasol i'r GIG neu'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu ymchwil clinigol/ lefel gwasanaeth gan ganolbwyntio ar y defnyddiwr gwasanaeth, y claf a llesiant y cyhoedd.

Bwriad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o fewn cyd-destun gyrfaoedd ymchwil yw denu, datblygu a chadw ymchwilwyr ac adeiladu capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gweithio ar y cyd o fewn cyd-destun Cymru a'r DU, trwy ddarparu cyfleoedd cyd ariannu a gweithio mewn partneriaeth gyda chyllidwyr y llywodraeth ym mhob rhan o'r DU, cynghorau ymchwil ac elusennau.

Ar y funud mae pum prif gynllun sydd yn cael eu hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac sydd yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion i ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil, dau yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol (Ysgoloriaeth / Cymrodoriaeth) a dau yn canolbwyntio ar ofal iechyd. Mae'r un gyllideb ar gael i'r holl gynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol a gosodwyd meini prawf cymhwyster er mwyn gwneud


ceisiadau oddi wrth amrywiaeth o ddisgyblaethau yn bosibl. Mae'r pumed cynllun yn anelu at ddarparu amser diogel ar gyfer staff GIG (Gwobr Amser Ymchwil GIG).

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn ariannu menter a reolir gan Brifysgol De Cymru dan y teitl Ymchwil Cyd-adeiladu Capasiti Ymchwil Cymru [research Capacity Building Collaboration (RCBC) Wales] ar gyfer nyrsus, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol iechyd perthynol eraill yn ogystal â chefnogi menter Adeiladu Capasiti Ymchwil er mwyn datblygu capasiti ymchwil o fewn gofal cymdeithasol. Yn ychwanegol at hyn, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cyd-ariannu PhD trwy Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru (DTP) ac mae HEIW yn ariannu Trac Academaidd Clinigol Cymru (WCAT) ar gyfer meddygon.

Yn ogystal â'r cynlluniau a ariennir ac a reolir yng Nghymru, mae gan ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fynediad at Cymrodoriaethau i Bawb (NIHR).

Caiff y cyfan o'r cynlluniau / rhaglenni hyn eu disgrifio mewn mwy o fanylder isod. Mae'n bosibl bod rhagor o gynlluniau a chyfleoedd cyllido ymchwil ar gael i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ond nad ydynt wedi eu cynnwys yn y wybodaeth isod ond wedi eu hamlygu trwy gyfweiliadau rhanddeiliaid neu drwy'r arolwg. Bwriad yr adrannau sy'n dilyn yw rhoi blas o'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad gyrfa a gynigir i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ffigwr 1: Diagram yn dangos llwybr gyrfa ymchwil ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru



Cynllun Ysgoloriaeth PhD Iechyd

Cylch Gwaith y Cynllun: Mae Cynllun Cymrodoriaeth PhD Iechyd yn cynnig cyfle i unigolion talentog ymgymryd ag ymchwil ac astudiaethau fydd yn arwain at radd PhD trwy ariannu prosiectau ymchwil ansawdd uchel sydd yn darparu tystiolaeth ar gyfer anghenion gofal defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r boblogaeth ehangach, ac / neu yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau effeithlon yng Nghymru. Croesewir ceisiadau oddi wrth oruchwylwyr arfaethedig ar draws ystod eang o destunau iechyd a gellir ymgymryd â'r ysgoloriaethau ar sail amser llawn dros 3 blynedd, neu ar sail rhan amser dros gyfnod o 4 neu 5 mlynedd.

Amllder Cynigion: Bob dwy flynedd.

Gwobrau: Ers 2015/16, mae 16 gwobr wedi eu cynnig drwy'r cynllun hwn, a'u gwerth tua £1m rhwng 5 sefydliad yng Nghymru.

Cynllun Ysgoloriaeth PhD Gofal Cymdeithasol

Cylch Gwaith y Cynllun: mae Cynllun Ysgoloriaeth PhD Gofal Cymdeithasol yn ariannu unigolion talentog i ymgymryd ag ymchwil ac astudiaethau fydd yn arwain at radd PhD trwy ariannu prosiectau ymchwil ansawdd uchel sydd yn darparu tystiolaeth ar gyfer anghenion gofal defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r boblogaeth ehangach, ac / neu yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau effeithlon yng Nghymru. Rhaid i geisiadau ddod oddi wrth y goruchwylwr arfaethedig a ddiffinir fel yr ymgeisydd am y cynllun hwn ac fel yr un fydd yn recriwtio'r myfyriwr. Gellir ymgymryd â'r ysgoloriaethau ar sail amser llawn dros 3 blynedd, neu ar sail rhan amser dros gyfnod o 4 neu 5 mlynedd.

Amllder Cynigion: Bob dwy flynedd.

Gwobrau: Ers 2015/16, mae 15 gwobr wedi eu cynnig drwy'r cynllun hwn, a'u gwerth tua £922K.

Cynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Iechyd

Cylch Gwaith y Cynllun: mae'r wobwr yn anelu at gefnogi unigolion i ddod yn ymchwilwyr annibynnol trwy arwain ac ymgymryd ag ymchwil ansawdd uchel, gan gynnig hyd at 3 blynedd o gyllid yn llawn amser (neu 4 neu 5 mlynedd yn rhan amser) i unigolion sydd â hyd at 60 mis o brofiad ymchwil llawn amser ôl- ddoethurol pan fyddant yn gwneud cais. Gwahoddir ceisiadau oddi wrth unigolion yn gweithio mewn unrhyw ddisgyblaeth wyddonol i ymgymryd ag ymchwil gyda mmanyion cylchoedd a amlygir, practis gwasanaeth iechyd neu fuddiant polisi a fydd yn ychwanegu at sail tystiolaeth ymchwil iechyd.

Amllder Cynnig: Bob dwy flynedd.

Gwobrau: Ers 2015/16, dyfarnwyd 17 o wobrau trwy'r cynllun hwn, gwerth hyd at tua £3.2m ar draws 3 sefydliad yng Nghymru.

Cynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Gofal Cymdeithasol

Cylch Gwaith y Cynllun: mae'r ysgoloriaeth yn anelu at gefnogi unigolion i ddod yn ymchwilwyr annibynnol trwy arwain ac ymgymryd ag ymchwil ansawdd uchel, gan gynnig hyd at 3 blynedd o gyllid yn llawn amser (neu 4 neu 5 mlynedd yn rhan amser) i unigolion sydd â hyd at 60 mis o brofiad ymchwil llawn amser ôl ddoethurol pan fyddant yn gwneud cais. Gwahoddir ceisiadau oddi wrth unigolion yn gweithio mewn unrhyw ddisgyblaeth wyddonol cysylltiedig â gofal cymdeithasol ôl ddoethuriaeth i ymgymryd ag ymchwil a fydd o fudd i ddefnyddwyr gwasanaeth a / neu ofalwyr, a gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cefnogol yng Nghymru.

Amllder Cynnig: Bob dwy flwynedd.

Gwobrau: Ers 2015/16, dyfarnwyd 11 gwobr drwy'r cynllun hwn, a'u gwerth tua £3.4m ar draws 3 sefydliad yng Nghymru.

Gwobr Amser Ymchwil GIG (RTA)

Mae GIG (RTA) yn anelu at adeiladu capasiti a gallu ymchwil o fewn y GIG trwy gynnig i staff y cyfle i ymgeisio am amser diopgel er mwyn iddynt ymgymryd â gweithgareddau ymchwil. Dylai ymgeiswyr fod â diddordeb clir mewn datblygu eu sgiliau ymchwil a gyda uchelgais o ddod unai yn brif neu gyd archwilydd, datblygu astudiaethau ansawdd uchel ar lefel yn lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Mae'r cynllun yn agored i staff GIG yng Nghymru (megis meddygon, nyrsus, bydwagedd, gweithwyr proffesiynol perthynol ym maes iechyd a gwyddonwyr clinigol) mewn gofal sylfaenol, eilaidd, cymunedol neu iechyd cyhoeddus.

Amllder Cynnig: Blynyddol.

Gwobrau: Ers 2016, dyfarnwyd 38 gwobr trwy'r cynllun hwn, a'u gwerth tua £2.6m ar draws 8 sefydliad yng Nghymru.

Gwerthusiad: Yn 2020, lluniwyd adroddiad yn amlinellu gwerthusiad o'r wobr amser ymchwil clinigol ac yn cynnig trosolwg o'r ymatebion. Roedd yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun RTA yn y dyfodol o ran cefnogaeth GIG ar gyfer amser diogel, mentoriaeth a chyllid a chyfleoedd pellach er mwyn gwella'r cynllun.

RCBC Cymru

Cafodd Cynyddu Capasiti Ymchwil ar y Cyd yng Nghymru (Capacity Building Collaboration Wales (RCBCCymru)) ei sefydlu yn 2005 ac mae'n darparu cyllid a chefnogaeth ar gyfer doethuriaethau ymchwil ar draws y trywydd ymchwil - o gyfleoedd cyntaf i faes ymchwil, astudiaethau doethurol ac ôl ddoethurol i ysgoloriaeth gyrfa ymchwil iechyd uwch. Mae'r cynllun hwn yn benodol ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi cofrestru fel nyrsus, bydwagedd, fferyllwyr, gwyddonwyr clinigol a gweithwyr perthynol ym maes iechyd fel y gallant ddatblygu eu hyder, eu sgiliau a'u harbenigedd ymchwil. Bydd holl aelodau'r cynllun RCBC yn ymuno â'r Gymuned Ysgolorion sydd yn darparu mentoriaeth a dosbarthiadau meistr mewn dulliau ymchwil ac arweinyddiaeth ym maes ymchwil, ac yn cynnwys ymwneud â pholisi a dylanwadu ar bolisi. Caiff y cynllun ei ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a

Gofal Cymru a'i weinyddu gan Brifysgol De Cymru. Ers y cychwyn, mae 102 ysgoloriaeth RCBC wedi eu dyfarnu.

Rhaglen Cynyddu Capasiti Ymchwil

Gyda chyllid oddi wrth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, cychwynwyd rhaglen dair blynedd ar gyfer Cymru gyfan yn 2020 gyda dau fwriad: annog pobl i faes ymchwil academaidd ar bob agwedd o ofal cymdeithasol; a chefnogi'r rhai sydd eiaoes yn gweithio yn y maes i ddatblygu eu gyrfaedd. Mae'r rhaglen mewn tair rhan allweddol ac yn cynnig llwybr at PhD (ar gyfer pobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu gyda phrofiad ohono), Llwybr at fod yn Brif Archwilydd (ar gyfer ymchwilwyr yn nyddiau cynnar eu gyrfa) a Llwybr at fod yn Athro. Cynhelir grwpiau "Action Learning Set" ar gyfer pobl sydd yn dymuno ymgeisio am arian, dosbarthiadau meistr mewn dulliau ymchwil, a rhaglenni mentoriaeth.

WCAT

Rhaglen hyfforddi glinigol academaidd yw Trac Clinigol Academaidd Cymru (WCAT) ac mae'n rhoi i hyfforddeion clinigol academaidd ledled Cymru ystod o wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i gystadlu fel ymchwilwyr annibynnol ym maes ymchwil modern. Caiff yr WCAT ei redeg ar y cyd gan HEIW a phrif Brifysgolion Cymru (Bangor, Caerdydd ac Abertawe) mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac yn derbyn arian wedi ei glustnodi ganddo. Mae pob cyfle WCAT yn darparu hyfforddiant o'r cychwyn hyd at CCT ac yn cynnwys Ysgoloriaeth Hyfforddiant PhD wedi ei hariannu am dair blynedd a chyfnod o hyfforddiant clinigol gydag amser clinigol yn ystod y blynyddoedd hyfforddiant clinigol. Anogir y cyfan o'r hyfforddeion yn gryf i ymgeisio am ysgoloriaethau a ariennir yn allanol ac sydd â lefel uchaf o lwyddiant. Darperir mentoriaeth hefyd, yn ogystal â mynediad at weithdai ôl ddoethurol a dyddiau clinigol academaidd blynyddol. Ar unrhyw un amser, mae tua 35-37 o hyfforddeion ynghlwm wrth y cynllun.

Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol (DTP) Cymru dan ofal ESRC

Mae Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol (DTP) Cymru yn hyfforddi gwyddonwyr cymdeithasol o'r radd flaenaf ar draws Cymru mewn ystod o faterion sydd yn effeithio ar gymdeithas yn awr. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar y cyd yn ariannu PhDs mewn gofal cymdeithasol. Mae'r bartneriaeth hon yn gynllun cydweithredol rhwng Prifysgol Caerdydd (y sefydliad arweiniol), Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Swydd Caerloyw a Phrifysgol Abertawe. Maent yn gweithio tuag at – ac yn datblygu – cofnod trac o gydweithrediad mewn hyfforddiant doethurol mewn gwyddorau cymdeithasol yn llwyddiannus yng Nghymru, yn paratoi myfyrwyr doethurol ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol trwy gynhyrchu gwybodaeth a chynyddu capasiti deallus a sgiliau ymchwil sydd yn arwain at wneud cyfraniad eithriadol i ddatblygiad amgylcheddol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol. Mae DTP Cymru yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o 14 o Bartneriaethau Hyfforddiant Doethurol sydd wedi eu achredu gan ESRC ledled y DU gan roi i fyfyrwyr PhD

fynediad at hyfforddiant ymchwil ansawdd uchel mewn gwyddorau cymdeithasol ac economaidd.

7. Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ledled y DU

Ledled y DU, mae ystod o gynlluniau a chyfleoedd ar gael i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Cynigir cynlluniau cyffelyb ledled y DU ond mae gwahaniaeth yn yr ystod o gynlluniau a gynigir, gyda chyfleoedd ar draws y llwybr, ar nifer o lefelau mewn gyrfaoedd ymchwil ac o fewn disgyblaethau penodol.

7.1 Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad oddi wrth arianwyr llywodraeth y DU

Mae Academi NIHR yn Lloegr yn darparu ystod eang o gynlluniau gyda llwybrau gyrfa strwythurol iawn, gan gynnwys ariannu hael ar y cyd gydag arianwyr eraill (gweler Ffigwr 2 am lwybr gyrfa ymchwil NIHR). Fe ymddengys mai Lloegr yw'r unig genedl o fewn y DU sydd yn darparu cyfleoedd ar lefel ymchwil uwch, gan fynd i fyny at lefel Cadeirydd. Hwyl hefyd yw'r unig genedl yn y DU i gynnig ysgoloriaethau partneriaeth diwydiant.

Mae gan Swyddfa'r Prif Wyddonydd (CSO) yn yr Alban, Academi'r NIHR yn Lloegr ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) yn Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Gogledd Iwerddon oll nifer o gyfleoedd, rhai ohonynt yn cael eu hariannu ar y cyd trwy gytundebau, gan gynnwys rhai gyda'r trydydd sector. Mae'r CSO yn yr Alban (gyda HSC yn ei reoli) yn ymddangos yn eithriadol o gryf o ran cydgyllido ar draws nifer fawr o'u cynlluniau. Mae'r cyfleoedd (a ariennir gan y Llywodraeth) dan reolaeth yr HSC ac yn Lloegr dan reolaeth yr Academi NIHR, ill dau yn cynnwys cynlluniau pontio, cyfleoedd ar gyfer ymchwilwyr i baratoi ceisiadau am ysgoloriaethau uwch, er enghraifft, caiff y cynllun pontio cyn-ddoethurol gan R&D y GIG ei redeg yng Ngogledd Iwerddon ar y cyd gyda'r GIG ac mae'n agored i AHPs yn unig. Mae'n cynnig dyraniad cyn-ddoethurol am 6 mis ar gyfer paratoi am yr ysgoloriaeth ddoethurol.

O ran gwerthuso, anaml iawn y caiff cynlluniau eu gwerthuso yn ffurfiol, er eu bod oll yn cael eu gwerthuso'n anffurfiol bob blwyddyn; mae hyn yn arwain at ddiwygiadau i gynlluniau ar sail adroddus. Mae'r cyfan o'r pedair cenedl wedi nodi heriau wrth fesur effaith a gwerth eu cyfleoedd ariannu.

Yn yr Alban, mae'r CSO yn adolygu eu cynlluniau a'u cynigion i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, canfu adolygiad anffurfiol o un cynllun yn 2018 bod y cynllun yn canolbwyntio ar feddygon dan hyfforddiant ac nad oedd yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer NMAHPs. Mae'r CSO hefyd yn ymrwmo i ddarparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer pob disgyblaeth ac o'r herwydd maent yn bwriadu addasu'r cynllun a'i ail-lansio fel y gall yr holl weithwyr proffesiynol clinigol – gan gynnwys NMAHPs a


gwyddonwyr gofal iechyd - wneud cais penodol. Maent hefyd yn lansio cynllun ôl ddoethurol newydd ar gyfer ymchwilwyr iechyd ym mhob proffesiwn iechyd - hwn fydd eu cynnig ôl-ddoethurol cyntaf.

Yn 2019, ymgwymerodd yr HSC yng Ngogledd Iwerddon â gwerthusiad mewnol o'u cynlluniau trwy lunio arolwg ymhlith ymgeiswyr blaenorol a phresennol (gan ganolbwyntio ar eu cynllun doethurol). Y bwriad oedd adnabod ffyrdd o wneud y cynlluniau yn fwy deniadol i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ac o ganlyniad fe wnaed nifer o newidiadau.

Yn 2016, ymgwymerodd yr NIHR yn Lloegr ag arolwg strategol o gyfleoedd hyfforddiant a datblygu gyrfa ar gyfer ymchwilwyr, yn adolygu'r cyfan oedd yn cael ei gynnig i weithlu biofeddygol ac ymchwil iechyd. Arweiniodd hyn at adroddiad a gyhoeddwyd yn 2017 gyda chyfres o argymhellion - sef man cychwyn y cynllun gweithredu a welir yn adran 4 uchod. Yn 2018, ail lanswyd Academi'r NIHR, gyda rhai rhaglenni newydd ac yn cynnwys cynlluniau cadarn a symlach. Fel rhan o Academi'r NIHR, yn awr cynhelir gwerthusiadau rheolaidd o gynlluniau dan ofal grŵp o arbenigwyr gwerthuso sydd yn asesu effaith cynlluniau (tîm gwerthuso ac effaith)

Er mwyn gweld cymhariaeth rhwng yr hyfforddiant ymchwil a chyfleoedd datblygu a ddarperir yng Nghymru a Lloegr, gweler y ddarpariaeth llwybr gyrfa ymchwil a ddatblygwyd trwy Academi'r NIHR yn Lloegr yn ffigur 2 isod. Trwy gymharu'r cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru yn erbyn y rhai sydd ar gael yn Lloegr, fe welir anghysondeb yn y buddsoddiad ac yn y cyfleoedd ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol o ran llwybrau gyrfaedd ymchwil.

Ffigur 2: Llwybrau Gyrfa Ymchwil a ddarperir trwy NIHR yn Lloegr



***Noder:** mae angen diweddarau'r diagram uchod o lwybrau gyrfaoedd ymchwil gan nad yw'n cynnwys Ysgoloriaethau Awdurdodau Lleol, Ysgoloriaethau Partneriaethau Elusennau, Ysgoloriaethau Partneriaethau Diwydiant na Chynllun Pontio yr NIHR.

Yn ogystal â'r cynlluniau ariannu sydd wedi eu cynnwys yn ffigwr 2 uchod, mae'r NIHR wedi cynnal rhai cynlluniau ar gyfer ymchwilwyr gofal cymdeithasol. I fod yn fanwl, mae'r NIHR wedi cynnal y cynlluniau canlynol yn ystod 2020/2021:

- Cymrodoriaethau cyn-ddoethurol ar gyfer Awdurdodau Lleol ac unigolion ar sail gwasanaeth a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Lleol
- Cymrodoriaethau doethurol ar gyfer Awdurdodau Lleol ac unigolion ar sail gwasanaeth a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Lleol
- Lleoliadau byr i hyrwyddo cydweithrediad rhwng ymchwilwyr ag awdurdodau lleol: cynllun peilot wedi ei ddylunio i gefnogi lleoliadau byr i unigolion symud rhwng practis a'r NIHR er mwyn gwella eu gyrfaoedd trwy ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn y rhyngwyneb rhwng awdurdodau lleol ac academia
- Gwobrau Datblygu Gyrfaoedd Ymchwil Unigol: cefnogi unigolion i ddatblygu eu gyrfaoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr

Mae mwyafrif y cynlluniau yn y Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil uchod gan y NIHR, gan gynnwys y cynlluniau ariannu ymchwil gofal cymdeithasol mwyaf diweddar, ar gael i ymchwilwyr yn Lloegr yn unig. Mae cymrodoriaethau'r NIHR a reolir gan Academi'r NIHR yn agored i unrhyw un o'r pedair gwlad. Bydd Cymru yn aml yn cymryd rhan yn y cynlluniau 'Cymrodoriaeth i Bawb', ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn penderfynu os ydynt am agor cynllun allan i ymchwilwyr Cymru ar sail ymholiadau unigol. Yn 2020/21, derbyniodd tri ymchwilydd o Gymru gymrodoriaethau NIHR – un Gymrodoriaeth a dau Uwch Gymrodoriaeth. Mae Gogledd Iwerddon hefyd yn cyfranogi yn y NIHR ond anaml y bydd yr Alban yn cymryd rhan. Mae bod yn rhan o gymrodoriaethau NIHR yn rhoi cyfleoedd i ymchwilwyr ledled y DU ac mae pob gwlad ddatganoledig yn ystyried cymrodoriaethau yn werthfawr iawn oherwydd eu natur cystadleuol. Wrth gymryd rhan, mae Academi'r NIHR yn cynnal y broses ymgeisio ac yn darparu'r capasiti a'r gallu i gynnig y cynlluniau, ond y famwlad sydd yn darparu'r cyllid ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Fodd bynnag, gall cyllid fod yn rhwystr i'r gwledydd datganoledig o ran cymryd rhan gan fod y cymrodoriaethau yn gostus ac heb fod yn rhedeg o fewn yr un paramedrau cyllido â chynlluniau y gwledydd datganoledig – er enghraifft gwahanol derfynau ar gostau cyflogau ar gyfer ymgeiswyr a therfyn ar y cyfanswm cyllid sydd ar gael. Gall y cyllidebau sydd eu hangen fod yn anwadal ac nid yw'n bosibl dyrannu cyllideb gan nad yw nifer yr ymgeiswyr sydd yn cwrdd â'r trothwy ansawdd yn cael ei ddatgelu ac hefyd gall problem godi os bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn peidio â chydabod bod y ffynhonnell cyllid yn dod oddi wrth y gwledydd datganoledig.

7.2 Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiaad oddi wrth gynghorau ymchwil ac elusenau

Yn ogystal â'r ystod cynlluniau a chyfleoedd sydd ar gael i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac wedi eu darparu gan arianwyr llywodraeth y DU, caiff ystod eang o gynlluniau ar gyfer gyrfaoedd ymchwil eu cynnig gan gynghorau ymchwil ac elusenau ledled y DU, a'r cyfan ar gael i ymgeiswyr o Gymru fynd amdanynt. Mae rhai o'r cynlluniau wedi eu disgrifio isod.

Mae **Cymrodoriaethau y Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC)** yn cefnogi datblygiad unigolion talentog er mwyn cryfhau sail ymchwil y DU a galluogi'r gymuned wyddonol i ymateb yn effeithlon i heriau mawr mewn ymchwil meddygol yn awr ac yn y dyfodol. Mae gan yr MRC rôl arweiniol genedlaethol sef hyfforddi ymchwilwyr ar draws ystod o ddisgyblaethau biofeddygol, clinigol a iechyd. Ar unrhyw un amser, mae'r MRC yn cefnogi tua 1,900 o fyfyrwyr PhD (yn cynnwys cymrodoriaethau cyn-ddoethurol) a 200 o gymrodoriaethau ôl-ddoethurol.

Mae'r **Wellcome Trust** yn cynnig cyllid a chefnogaeth arall yn ystod camau allweddol gyrfaoedd ymchwil, mewn gwyddor biofeddygol, iechyd poblogaeth a dyniaethau a gwyddor gymdeithasol. Maent yn cynnal cynlluniau i gefnogi ymchwilwyr ar gyfnodau allweddol yn eu gyrfaoedd, hyfforddiant is raddedig, ôl raddedig, ôl ddoethurol a thrwy gyfnod arwain rhaglen ymchwil. Maent yn cefnogi miloedd o ymchwilwyr awyddus ac ymroddedig ledled y byd. Yn aw, mae'r modd y maent yn ariannu ymchwil yn newid er mwyn cefnogi eu strategaeth newyddgyda chyfres symlach o gynlluniau ariannu.

Mae **Cancer Research UK (CRUK)** yn cynnig nifer sylweddol o gyfleoedd datblygu gyrfa ar gyfer clinigwyr, ymchwilwyr sefydledig, ymchwilwyr di-glinigol, ac ymchwilwyr canol gyrfa i ymchwilio pob maes canser a'r mwyaf poblogaidd yw ymchwil cyn-glinigol, ymchwil biofarwyr a threialon clinigol.

Mae'r **British Heart Foundation (BHF)** yn darparu cefnogaeth bersonol ar gyfer ymchwilwyr cardiofasciolar clinigol ac anghlinigol ar bob cam o'u gyrfa. Maent hefyd yn cynnig grantiau ar gyfer prosiectau ymchwil tymor byr a thymor hir, seilwaith hanfodol a mentrau strategol. Maent yn darparu ystod eang o gymrodoriaethau yn cynnwys rhai yn cynnig hyfforddiant ymchwil a datblygu gyrfa ar gyfer nyrsus, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd; cymrodoriaethau hyfforddi ymchwil clinigol, chymrodoriaethau ôl-ddoethurol, canolraddol ac uwch a chymrodoriaethau ymchwil gwyddor sylfaenol a chanolraddol; rhaglen PhD 4-blynedd ac ysgoloriaethau PhD anghlinigol, yn ogystal ag ariannu Cadeiryddion Ymchwil.

Yr **Economic and Social Ymchwil Council (ESRC)** yw'r sefydliad ariannu mwyaf yn y DU ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl raddedig yn y gwyddorau economaidd a chymdeithasol. Maent yn cynnal cymrodoriaethau ar gyfer myfyrwyr ôl raddedig a

ddewisir trwy gystadleuaeth agored a thryloyw ac a reolir trwy eu Rhwydwaith Hyfforddi Doethurol. Fe luniodd yr ESRC adolygiad o ymchwilwyr gwyddor gymdeithasol gyrfa gynnar: anghenion o ran profiadau a chefnogaeth, a arweiniodd at lansio cyfres newydd o fesurau i wella'u cefnogaeth ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnar. Maent yn awr yn darparu cyfleoedd mewn tri cham yng ngyrfa gynnar ymchwilwyr sef doethurol, ôl-ddoethurol cynnar a'r cyfnod trosglwyddo i fod yn ymchwilydd annibynnol.

7.3 Gweithio mewn partneriaeth ledled y DU

Gydol yr adolygiad hwn, awgrymwyd gan adrannau llywodraeth y DU, cynghorau ymchwil ac elusenu bod y cyfleoedd ymchwil ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gynigir gan y gwahanol arianwyr yn cydweddu â'i gilydd ac yn llunio llwybr i gefnogi ymchwilwyr ledled y DU ac ar draws holl gamau gyrfa ymchwil.

Mae rhaglen Dyfodol Darparu Ymchwil Clinigol y DU: 2021/22 yn dwyn ynghyd y pedair gwlad o fewn y DU i weithredu strategaeth *Achub a Gwella Bywydau: Dyfodol Darparu Ymchwil Clinigol y DU (2021)* sydd yn cyflwyno gweledigaeth amlwg ac uchelgeisiol ar gyfer dyfodol darparu ymchwil clinigol. O dan faes gweithredu 5, gwella gwelededd a gwneud i ymchwil gyfrif i'r GIG, mae gweithgaredd ar gyfer Prydain lle bydd y GIG yn hwyluso cydnabyddiaeth am gyfraniad nyrsus, bydwagedd, proffesiynau iechyd eraill, fferyllwyr, a gwyddonwyr gofal iechyd i weithlu ymchwil, a gwerth ymchwil a blaengaredd ymhlith arweinwyr GIG, gan egluro i'r proffesiynau hyn y gwahanol ffyrdd y gallant hyrwyddo ymchwil.

Mae Fforwm Hyfforddi Academaidd Clinigol (CATF) yn defnyddio atrwythur aml-gyllidol, aml-asiantaethol, pedair cenedl er mwyn llunio agwedd intrgredig ar gyfer holl hyfforddiant clinigol academaidd i weithwyr proffesiynol, ar draws pob cymuned glinigol.

Cafodd gwefan ei lansio yn ddiweddar o'r enw "The Clinical Academic Training Hub" (CATCH) sydd yn anelu at fod yn gartref i wybodaeth ar yrfaedd academaidd clinigol ar draws u DU. Pwrpas y safle hon yw arddangos a hyrwyddo'r amrywiaeth eang o ddewisiadau cyffrous a geir mewn academia clinigol ar draws ystod eang o ddisgyblaethau gofal iechyd, darparu cyngor ymarferol ar ddewisiadau o ran gyrfaoedd clinigol ar draws y pedair gwlad yn y DU, hyrwyddo academyddion clinigol ysbrydoledig ar wahanol gamau yn eu gyrfa a helpu i wireddu breuddwydion a chreu cysylltiad rhwng ymarfer clinigol ac academia.

Gydol y trefniadau partneriaeth hyn ac eraill ledled y DU, mae dymuniad cyffredinol i gydweithio a gwella cydgysylltiad o ran darparu cyfleoedd mewn gyrfaoedd ymchwil. Er bod llawer o'r trefniadau partneriaeth hyn yn canolbwyntio ar ymchwil clinigol, mae cydweithrediad ledled y DU yr un mor bwysig ar gyfer holl ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

8 Cefnogaeth ac arweiniad ymchwil yng Nghymru

Ochr yn ochr gyda hyfforddiant ffurfiol ymchwil a'r cyfleoedd datblygu a gynigir i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae cefnogaeth bellach ar gael, wedi ei sefydlu yn dilyn cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid, ac yn cynnwys:

- **Sefydliadau GIG:** Mae swyddfeydd R&D ym mhob bwrdd iechyd yn cael eu hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac maent wedi ymrwmo i gefnogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal i ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil (fel yr amlinellir yn eu strategaethau ymchwil) trwy gyfrwng nifer o ddulliau: annog clinigwyr i wneud ymchwil, darparu lleoliadau ar gyfer myfyrwyr, arolygu myfyrwyr PhD, cefnogaeth ar gyfer adnabod cyfleoedd ac ymgeisio am arian, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a chefnogi cynnwys ymchwil mewn swydd-ddisgrifiadau staff.
- **Awdurdodau Lleol:** nid oes gan swyddfeydd R&D ddarpariaeth gyfatebol mewn gofal cymdeithasol ac ar y funud prin yw'r gefnogaeth ar gyfer helpu gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i ddatblygu gyrfa mewn ymchwil, yn bennaf oherwydd pwysau gwaith a diffyg seilwaith ac adnoddau. Er bod diffyg cymhelliant i annog staff gwaith cymdeithasol / gofal cymdeithasol i ddilyn gyrfaedd ymchwil, mae parodrwydd a diddordeb ymhlith y gweithlu i ymgymyd ag ymchwil a gwneud defnydd ymarferol o dystiolaeth.
- **Sefydliadau Addysg Uwch (HEIs):** mae gan nifer fawr o HEIs wasanaethau blaengaredd ymchwil a thimau sydd yn cefnogi datblygiad ymchwilwyr. Maent yn darparu cefnogaeth i'w hymchwilwyr ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil trwy gyfrwng strategaethau dysgu a datblygu, hyfforddiant a datblygiad, cynlluniau mentora, cefnogaeth a chymorth gydag ymgeisio am arian a chefnogaeth grwpiau cymheiriaid. Mae HEIs yn gweithio o fewn y canllawiau a nodir yn y Concordat i Gefnogi Datblygu Gyrfaedd Ymchwilwyr (2019), sydd yn gytundeb rhwng rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflogaeth a chefnogaeth ar gyfer ymchwilwyr a gyrfaedd ymchwilwyr mewn addysg uwch yn y DU. Mae'n gosod allan dair egwyddor glir sef amgylchedd a diwylliant, cyflogaeth, a datblygiad proffesiynol a gyrfaol, ar sail dyletswyddau'r pedwar grŵp rhanddeiliad allweddol - arianwyr, sefydliadau, ymchwilwyr a rheolwyr yr ymchwilwyr, i sylweddoli amcanion y Concordat. Mae llawer o HEIs yn defnyddio'r concordat fel fframwaith ar gyfer cefnogi ymchwilwyr yn eu sefydliadau, creu ymroddiad i weithredu, a sefydlu cynllun blynyddol.
- **Rhaglen hyfforddi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:** mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnig ystod eang o gyrsiau hyfforddiant ansawdd uchel i'r gymuned ymchwil ar gyfer eu hanghenion ledled Cymru ac mae'r cyrsiau hyn ar gael i ymchwilwyr iechyd a gofal a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol gan gynnwys y rhai sydd yn ymwneud â datblygu a chynnal astudiaethau ymchwil. Gall aelodau'r cyhoedd hefyd fynychu'r cyrsiau hyfforddi. Mae'r cyfan

o'r cyrsiau ar y rhaglen hyfforddiant cenedlaethol wedi derbyn y marc ansawdd ar gyfer achrediad Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ag eithrio rhai cyrsiau a ddarperir gan hyfforddwyr allanol.

- **Unedau Treialon Clinigol (CTUs):** dyma wasanaeth Cymru gyfan a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac sydd yn darparu cefnogaeth ymarferol a chyingor i ymchwilwyr ym mhob agwedd o dreialon clinigol, o ddylunio, cynnal a dadansoddi i adrodd yn ôl a dadansoddi. Maent yn cynnig cyngor a chefnogaeth methodolegol i dimau clinigol, mewn dylunio treialon newydd ac hefyd mewn ymgeisio am grantiau. Maent hefyd yn cefnogi ac yn mentora ymchwilwyr gyda'u syniadau cynharaf ar gyfer ymchwil, yn ogystal â mentora ymchwilwyr sydd wedi derbyn cymrodoriaethau.
- **Gwasanaeth Ymchwil Dylunio a Chynnal (RDCS):** yn cefnogi staff sydd yn gweithio mewn gofal cymdeithasol a'r GIG i ddatblygu prosiectau ymchwil er budd y cyhoedd yn ogystal â gwella iechyd a llesiant pobl Cymru. Mae'r prosiect Cymru gyfan hwn – wedi ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – yn darparu arweiniad a chyingor fydd yn galluogi ymchwilwyr i asesu posibiliadau syniad ac i ddatblygu astudiaeth neu dreial yn effeithlon hyd at y pwynt o ymgeisio am gyllid. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cyngor ar gynigion ariannu cadarn, methodoleg a dyluniad cadarn i'r astudiaeth a rhagor o gyngor cyffredinol ar sut i gyfrifo'n effeithlon y costau gan gymryd i ystyriaeth yr holl adnoddau fydd eu hangen drwy gydol y treial.
- **Enghreifftiau eraill o gefnogaeth ar gyfer ymchwilwyr yng Nghymru:**
 - Mae rhaglen peilot mentora ymchwil Prifysgol Bangor a'r Coleg Gwyddorau Dynol yn y broses o ddatblygu llwybr academaidd clinigol, yn ymgorffori rhaglen academaidd glinigol a rhaglen gwelliannau clinigol.
 - Caiff Cymuned Ysgolorion yng Ngogledd Cymru ei gynnal gan Brifysgol Bangor mewn cydweithrediad gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a'i amcan yw creu llwybr at ymchwil, datblygu ymchwil iechyd ar draws Gogledd Cymru trwy rwydweithio clinigwyr ac academyddion, hwyluso ymchwil cydweithredol, datblygu arweiniad a chydweithrediad, datblygu sgiliau ymgeisio am grantiau ymchwil, a datblygu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd cymhwysol.
 - Nifer o rwydweithiau ymchwil a ariennir drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn ogystal â drwy hybiau annibynnol megis Hyb Strôc Cymru sydd yn anelu at newid cam mewn ymchwil yng Nghymru a chynyddu gweithgaredd ymchwil strôc yng Nghymru, gan gynnwys gweithgaredd yn canolbwyntio ar hyfforddiant ac addysg.
 - Fforymau proffesiynol ar gyfer ymchwil megis Fforwm Iechyd Nyrsus, Bydwagedd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol (NMAHPs) sef fforwm wahanol yn cynnwys tua 70 o weithwyr proffesiynol gyda llwyth gwaith enfawr ym maes addysg a hyfforddiant – a chyswllt gyda darparu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd hyfforddi a datblygu a llwybrau gyrfa.

- Mae Fforwm Canolfan Gweithwyr Proffesiynol Ymchwil Iechyd Perthynol (CAHPR) yn cael ei adfywio yng Nghymru ac yn cynnwys bwriad i ddatblygu graddfa, dyfnder ac ansawdd ymchwil AHP trwy ddatblygu sgiliau a chryfhau cyfleoedd ar gyfer sicrhau cynnydd gyrfaoedd ymchwil.
- Mae Ymchwil Fferylliaeth Cymru wedi datblygu strategaeth i greu diwylliant parhaol o fewn y proffesiynau fferyllol a fydd yn newid cam o fewn y proffesiwn fferylliaeth ac yn golygu ymchwil o well ansawdd a mwy ohono, yn dylanwadu ar ymarfer a pholisi er budd iechyd y bobl yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r grŵp gweithredu strategaeth (RSIG) yn sgopio, arwyddbostio a lobio am well mynediad at hyfforddiant ymchwil er mwyn gwella gyrfaoedd mewn ymchwil ac maent hefyd wedi helpu i ddatblygu model dulliau ymchwil a reolir gan fferyllwyr.

8.1 Cyfleoedd, cyllid a chefnogaeth a dderbynnir gan ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Mae gan ymchwilwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru fynediad at ystod eang o gefnogaeth i'w gyrfaoedd ymchwil. Roedd 186 o ymatebwyr yn yr arolwg wedi derbyn ystod eang o gyfleoedd, cyllid a chefnogaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau. Y gefnogaeth fwyaf cyffredin a dderbyniwyd ganddynt oedd:

Hyfforddiant ymchwil: er enghraifft, Cyflwyniad i Hyfforddiant Ymchwil, Ymarfer Clinigol Da (GCP), Dulliau Ymchwil, Caniatâd ar sail Gwybodaeth, Hanfodion Ymchwil Clinigol, ac roedd yr hyfforddiant hwn wedi ei dderbyn trwy raglan hyfforddi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, oddi wrth HEIW, eu canolfannau gwaith (sefydliadau addysg uwch, sefydliadau GIG) a thrwy'r RDCS.

Cefnogaeth ar gyfer graddau PhD a Meistri: mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ariannol ar gyfer ffioedd cyrsiau neu fwrseriaethau - llawn neu rannol - a dderbyniwyd gan ymatebwyr arolygon, er enghraifft trwy fecanweithiau megis cymrodoriaethau PhD. Roedd y gefnogaeth ar gyfer PhDs a Meistri yn dod oddi wrth NIHR, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, HEIW, eu sefydliadau gwaith ac arianwyr eraill megis Wellcome/ CRUK.

Cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: er bod hyn yn ymddangos yn y rhestr cefnogaeth uchod, roedd cefnogaeth ychwanegol benodol oddi wrth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys RTA, ymchwil ar gyfer dyraniadau, cymrodoriaethau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogaeth oddi wrth Gronfa Cefnogi a Darparu Dysg a Datblygiad.

Mae cefnogaeth a dderbynnir ar gyfer **cymrodoriaethau / rhaglenni ôl- ddoethurol** yn dod oddi wrth y Wellcome Trust, MRC, a'r Gymdeithas Strôc, yn ogystal â rhai

elusennau llai a chefnogaeth RCBC ar ffurf cynllun Cyntaf i Ymchwil, cymrodoriaethau ôl-ddoethurol a chefnogaeth oddi wrth eu Cymuned Ysgolorion.

Roedd dulliau cefnogaeth eraill a nodwyd yn aml yn cynnwys cyrsiau arweinyddiaeth, presenoldeb mewn cynadleddau a digwyddiadau, amser rhydd ar gyfer astudio, grantiau ariannol bach, cefnogaeth gan grwpiau seilwaith megis RDCS a CTUs, lleoliadau ymchwil a secondiadau.

Gan ddau ymatebwr yn unig y nodwyd eu bod wedi derbyn unrhyw help ar ffurf mentora ymchwil, a nodwyd gan 34 o'r ymatebwyr (18%) nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gefnogaeth o gwbl i ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil. Dyma eiriau rhai o'r ymatebwyr:

- *Nid wyf wedi derbyn unrhyw gyllid, cefnogaeth na hyfforddiant yn fy rôl bresennol. Mae fy nghefnidir mewn ymchwil wedi fy ngalluogi i ymddwyn yn gymwys mewn capasiti ymchwil fel rhan o fy swydd brasennol. Fodd bynnag, rwyf wedi gorfod gwthio'r gweithgareddau hyn i mewn ar ben fy ngwaith diagnostig arferol ac mae hyn wedi bod yn anodd iawn.*
- *Fe fum ar leoliad academaidd lle cefais agoriad llygad ynghylch y'r anawsterau a wynebwr wrth geisio mynediad at ymchwil. Buaswn yn hoffi'n arw bod yn rhan o ymchwil ond nid yw'r cyfle ar gael.*
- *Ers ymuno gyda fy nghyflogwyr presennol, mae'r gefnogaeth wyf wedi ei gael gan y sefydliad, fy rheolwr llinell, fy nghydweithwyr rhyfeddol a mentoriaid wedi bod o'r radd flaenaf. Mae hefyd yn cydweddu gyda fy natblygiad proffesiynol. Yn ddiweddar rwyf wedi cwblhau rhaglen arweinyddiaeth ymchwil fewnol, mae gennyf fentor ffurfiol ac rwyf yn derbyn cefnogaeth weithredol ac yn cael fy annog i'm datblygu fy hun ac eraill.*

8.2 Defnyddio cefnogaeth sefydliadau

O'r 186 a ymatebodd i'r arolwg, roedd 70 (38%) ohonynt yn teimlo eu bod wedi derbyn cefnogaeth oddi wrth eu cyflogwyr sefydliadol, 48 (26%) yn teimlo nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gefnogaeth, a 30 (16%) heb ateb y cwestiwn hwn. Roedd 38 (20%) arall yn teimlo – er bod eu cyflogwyr yn gefnogol mewn egwyddor i'w gyrfaoedd ymchwil – nad oedd hyn yn ymarferol wir gan nad oedd unrhyw gyllid na buddsoddiad ac nad oedd eu cyflogwyr yn rhyddhau staff am amser diogel hyd yn oed pan oedd hyn wedi ei sicrhau. Yn y cyd destun hwn, roedd cefnogaeth gan gyflogwyr yn cael ei ddisgrifio yn bennaf fel lwc ac yn ddibynnol iawn ar unigolion ac adrannu yn dangos diddordeb ayyb yn hytrach na diwylliant sefydliadol. Caiff ymchwil yn y modd yma ei gynnal gan staff yn eu hamser eu hunain yn aml, gan arwain at gydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith. Dyma ddywedodd rhai o ymatebwyr i'r arolwg:

- *Oes, fel un yn gweithio i HEI, mae gennyf fymediad at nifer fawr o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ymchwil a datblygu gyrfa ac rwyf yn cael fy annog a'm*

cefnogi i ddatblygu a chydweithredu gyda cheisiadau cyllido ac arolygu myfyrwyr ymchwil ayyb. Mae hyn yn fy swydd ddisgrifiad ac felly yn ffurfio rhan o fy PDR a phrosesau eraill yn ymwneud â datblygu gyrfa.


- *Tra'r oeddwn yn cwblhau fy secondiad ôl-ddoethurol [ymchwil], cafodd fy swydd barhaol gyda'r GIG ei rhoi ar y cofrestr risg heb yn wybod i mi. Cefais wybod am hyn yn llafar yn agos i ddiwedd fy secondiad sef nad oedd gennyf mwyach swydd [glinigol]. Yna, gyda chymorth fy nghynrychiolwyr undeb gwaith, caniatawyd i mi ddychwelyd at y sefydliad i swydd ar raddfa is a swydd ddisgrifiad yn cynnwys llai o sgiliau gyda chyflog wedi ei ddiogelu.*
- *Dim mewn gwirionedd. Yn ein adran ni, nid yw ymchwil yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth ond mae addysg yn hollbwysig oherwydd y llif incwm. Mae peth cefnogaeth i ymchwil ar draws y brifysgol ond nid yw hyn yn ganolog yn y colegau oherwydd diffyg cefnogaeth. Fel athro, nid wyf yn derbyn unrhyw gefnogaeth weinyddol ac nid oes unrhyw gefnogaeth weinyddol o gwbl yn yr adran ar gyfer mentrau ymchwil. Gallwn dreulio fy amser yn llawer mwy defnyddiol pe byddai yna rywfaint bach o gefnogaeth weinyddol. Mae holl staff yr adran wedi eu gorlwytho gan eu dyletswyddau dysgu ac felly ni allant ddatblygu eu sgiliau ymchwil er bod y brifysgol yn disgwyl i uwch staff fod wedi ymgymryd ag ymchwil. Mae staff yn disgwyl hyd nes byddant mewn swyddi uwch cyn ymgymryd â'u PhD ond erbyn hynny mae yn rhy hwyr iddynt allu sefydlu gyrfa ymchwil.*
- *Dim yn arbennig. Fe sylweddolais bod ymgymryd ag ymchwil fel ceisio mynd i mewn i ystafell wedi ei chloi a hynny heb oriad. Unwaith yr oeddwn wedi cael gafael ar ychydig o bobl oedd yn fodlon rhoi arweiniad i mi, roedd pethau yn well ond fel arall roeddwn yn dal i deimlo fy mod wedi fy ngadael fwy neu lai ar fy mhen fy hun a bod ceisio cael arweiniad yn anodd iawn. Nid oedd hyn yn gychwyn da i yrfa ymchwil ac mae wedi fy siomi rhag ymgymryd ag ymchwil pellach. Hefyd roedd yn anodd canfod yr amser i orffen yr ymchwil gan fy mod yn gweithio llawn amser ac er fy mod wedi cael yr amser ar gyfer yr ymchwil, nid oedd unrhyw gefnogaeth i fy rôl gwaith ac felly roedd yr ymchwil yn bwysau ychwanegol.*

Mae rhai o'r arianwyr ymchwil a holwyd drwy'r arolwg hwn yn mandadu'r gefnogaeth a ddisgwyliant oddi wrth y sefydliadau sy'n eu cyflogi cyn, yn ystod ac yn dilyn dyraniad arian datblygiad personol a gall hyn hefyd fod o gymorth i ddatblygu a chefnogi amgylchedd addas ar gyfer ymchwilwyr.

8.3 Cyfleoedd defnyddiol ar gyfer y dyfodol

Mewn ateb i'r cwestiwn ynghylch beth fyddai fwyaf defnyddiol o safbwynt cyfleoedd hyfforddi a datblygu wrth hyrwyddo eich gyrfa ymchwil, derbyniwyd 26 awgrym oddi wrth ymatebwyr i'r arolwg ac mae 14 o'r awgrymiadau mwyaf amlwg wedi eu dangos yn y graff isod:

Ffigwr 3: Y Gefnogaeth Fwyaf Defnyddiol ar gyfer Gyrfaoedd Ymchwil (a awgrymwyd gan ymatebwyr i'r arolwg)



Dyma oedd gan rai o'r ymatebwyr yn yr arolwg i'w ddweud:

- *Byddai'n wych cael y cyfle i ddod yn academydd clinigol. Mater arall ydy sut i gyrraedd y nôd hwn tra bod dim neu ychydig iawn o swyddi ar gael. Mae angen i'r swyddi hyn fod yn gynladwy hefyd ac yn hygyrch i bobl ar bob lefel – nid yw PhDs yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl (o safbwynt amser ac arian) yn enwedig os oes gennych gyfrifoldebau teuluol. Nid wyf yn teimlo y dylai pobl aberthu eu hamser personol i fod yn ymchwilwyr - fe ddylai'r gwaith gael ei gydnabod fel swydd go iawn ac yn derbyn tâl haeddiannol.*
- *Yn fy marn i, y peth anoddaf ynghylch fy sefyllfa bresennol yw fy mod yn teimlo yn gyfangwbl ar fy mhen fy hun a bod pob cam yn teimlo fel ymdrech anferth. Mae hyn yn rhannol oherwydd y ffaith nad wyf yn gwybod pwy i gysylltu â hwy, pa gamau i'w cymryd nesaf ac mae'r cyfan oherwydd diffyg profiad. Felly mi gredaf mai'r hyn fyddai o gymorth mwyaf i mi fyddai cael bod yn rhan o dîm ymchwil lle byddwn yn gallu canolbwyntio ar dasg lai sydd yn rhan o'r ymchwil er mwyn gallu profi beth yn wir yw amgylchedd ymchwil. Ond hefyd, fe fyddwn yn hoffi cael arsylwi a dysgu mwy oddi wrth cydweithwyr mwy profiadol ynghylch pob agwedd o ymchwil.*

9 Bylchau mewn cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad yng Nghymru

Cyflwynodd rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol swm sylweddol o adborth ar gynlluniau ariannu cyfredol, bylchau mewn cyfleoedd ariannu cyfredol ac awgrymiadau ar sut i lenwi'r bylchau hyn. Gweler crynodeb o'r awgrymiadau isod ond mae'r cyfan o'r sylwadau i'w gweld yn Atodiad 7.

Mae ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn wirioneddol werthfawrogi'r cyfle i gyfranogi mewn Cymrodoriaethau NIHR ac mae adborth yn awgrymu y dylai hyn barhau, er y nodwyd y dylai deiliaid Cymrodoriaethau NIHR Nghymru gael mynediad at y gefnogaeth sydd ynglwm wrthynt e.e digwyddiadau. Hefyd, roedd adborth yn awgrymu os yw Cymru yn parhau i brynu i mewn i Gynllun Cymrodoriaethau NIHR, y dylid gwneud hyn yn gyson yn hytrach na fesul cynllun er mwyn osgoi dryswch ymysg ymchwilwyr ynghylch cymhwyster.

Yn ogystal â hyn, mae adborth yn awgrymu hefyd y dylai Cymru barhau i archwilio rhagor o gyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau trawsgyllidol, gyda chyllidwyr ledled y DU a sefydliadau arian cyfatebol o fewn Cymru.

Adborth ar reolaeth a natur y cynlluniau presennol: ymateb enfawr, gyda nifer fawr o sylwadau ar hyn. Roedd y rhai a nodwyd amlaf yn cynnwys:

- Yr angen i wneud cynlluniau ariannu yn fwy deniadol trwy alluogi tâl ariannol rhesymol sydd yn cyfateb i ad-daliadau cyflog.
- Cynnig cynllun gyda chyflog – stipend yn unig yw'r cynllun cyfredol felly nid oes cymhelliad i ddilyn gyrfa ymchwil gan y byddai'n rhaid i rai gymryd toriad yn eu cyflogau parhaol a rhoi eu swyddi yn y GIG / awdurdod lleol mewn perygl.
- Yr angen i fuddsoddi mewn capasiti ymchwil er mwyn datblygu ymchwilwyr
- Cydnabyddiaeth bod profiad ymchwil perthnasol lawn mor bwysig o safbwynt meini prawf cymhwysedd â chael ffocws di-PhD ar gyrhaeddiad addysgol a chymwysterau ar gyfer cael mynediad at gynlluniau cyfredol.
- Ni chaiff cynlluniau eu cynnal yn ddigon aml – dim ond unwaith bob dwy flynedd – sydd yn gyfnod hir rhwng cymrodoriaethau.
- Angen rhagor o gefnogaeth i gynlluniau sydd yn darparu mân gyllid a grantiau bach cychwynnol i helpu pobl i gychwyn a datblygu eu gyrfa ymchwil, er enghaifft dylid ail-gyflwyno llwybr cenedlaethol i gynllun ariannu portffolio.

Adborth ar lefel sector: cafwyd adborth oddi wrth rhanddeiliaid ac ymchwilwyr Cymreig bod angen buddsoddi mwy o arian mewn gyrfaedd ymchwil ym meysydd iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol ac yn benodol o fewn y GIG ei hun.

Roedd adborth cryf o ran anghysondeb mewn cyllid, yn enwedig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a'r angen brys am fuddsoddi mewn ymchwil gyrfaedd yn maes gofal

cymdeithasol, er enghraifft datblygu cynlluniau wedi eu targedu a chynnig cyfleoedd tebyg i'r rhai a gynigir gan NIHR gyda golwg ar eu cynlluniau ariannu mwyaf diweddar, sydd yn targedu'r sector gofal cymdeithasol (yn enwedig tuag at awdurdodau lleol) ac Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol yr NIHR, megis dyraniadau datblygu gyrfaedd, ysgoloriaethau, dyraniadau datblygu arweinwyr ymchwil, dyraniadau datblygu arweinwyr ymchwil mewn meddygfeydd, interniaethau, rhaglenni hyfforddi ayyb. Er bod cynlluniau'r NIHR ac Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol yr NIHR yn weddol newydd, maent yn darparu cefnogaeth ar ystod o lefelau yn Lloegr ac ar y funud nid oes unrhyw gynlluniau cyfatebol yng Nghymru.

Roedd yr adborth yn amlygu'r ffaith nad oes unrhyw lwybr gyrfa ymchwil ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol a staff awdurdod lleol i ddilyn gyrfaedd ymchwil yng Nghymru, unai ar sail llawn amser neu ynghlwm wrth eu swydd bresennol. Nodwyd hefyd bod cynlluniau presennol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yn anaddas ar gyfer staff gofal cymdeithasol gan nad ydynt yn ddigon hygyrch ar gyfer staff awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i arolygwyr yn hytrach nag ymgeiswyr wneud cais am gymrodoriaethau PhD ac i wneud cais mae'n ofynnol bod yn gyflogedig gan sefydliad addysg uwch. Mae gwir angen adeiladu capasiti ymchwil ymhlith gweithlu gofal cymdeithasol a chreu cynlluniau sydd yn galluogi ymchwilwyr newydd i ddatblygu o fewn y cyd-destun hwn.

Adborth ar fuddsoddiad wedi ei dargedu ar gyfer gwahanol ddisgyblaethau: roedd nifer fawr o sylwadau gan randdeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn a rhestrir y rhai a nodwyd amlaf isod:

- Nid yw cynlluniau sydd wedi eu targedu tuag at ddisgyblaethau penodol a chynlluniau generig yn hollol ar eu pennau eu hunain a buasai yn ddefnyddiol cael cymysgedd o'r ddau fath.
- Fe ddylai bod rhagor o gyfleoedd, a chynlluniau wedi eu targedu neu gronfeydd wedi eu clustnodi ar gyfer disgyblaethau sydd yn cael eu tangynrychioli megis gweithwyr cymdeithasol, NMAHPS, deintyddion a staff cyflawni ymchwil.
- Y grêd yw bod gan feddygon lwybr gyrfa ymchwil glinigol eglur, mwy o ffrydiau cyllid ond llai o gyfleoedd a llwybrau ar gael i'r rhai nad ydynt yn feddygon.

Adborth perthnasol i gamau mewn gyrfa ymchwil: roedd hefyd nifer fawr o sylwadau ar hyn a nodir y rhai mwyaf amlwg isod:

- Angen buddsoddi mwy o gyllid ar draws pob cam mewn gyrfaedd ymchwil o gyn-ddoethurol, doethurol, ôl-ddoethurol (cynnar ac uwch) hyd at gadeiryddiaeth.
- Fodd bynnag cyfeiriwyd yn aml at rai meysydd yn y llwybr gyrfaedd ymchwil, yn benodol cyn-ddoethurol a'r cyfleoedd uwch i fyny hyd at Gadeirydd – h.y. dau begwn llwybr gyrfa ymchwil.

- Amlygwyd bwlch sylweddol ar lefel ôl-ddoethurol (cynnar) sef y cyfnod canol gyrfa, lle bydd ymchwilwyr yn ‘hofran’ neu yn ‘syrthio oddi ar y dibyn.’ Y disgwyl yw y bydd gan yr ymchwilydd – unwaith y bydd wedi cwblhau cymrodoriaeth – yr arbenigedd sydd ei angen i ddatblygu ac ennill arian grant ar gyfer dod yn ymchwilydd annibynol. Bryd hynny, mewn gwirionedd, mae ychwilwyr angen cefnogaeth bellach, strwythur, hyfforddiant a mentoriaeth dda, a buddsoddiad mewn cymrodoriaethau canolradd.
- Mae’r cyfnod trosglwyddo o un cam gyrfa ymchwil i’r nesaf yn beryglus i ymchwilwyr ac mae cefnogaeth ar yr adeg hon yn hanfodol. Mae trosglwyddo o un cam gyrfa ymchwil i’r nesaf yn her ac mae cefnogaeth bryd hynny yn bwysig iawn. Mae hwn yn gyfnod anodd i’w oresgyn ac ar yr adegau hyn y mae graddfeydd gadael yn arbennig o uchel a Chymru yn aml yn colli pob ddal. Mae heriau a rhwystrau yn y cyfnodau hanfodol hyn ac mae’n hanfodol bwysig derbyn y cyngor cywir ar yr adeg iawn e.e. trwy fentoriaeth ac amgylchedd gefnogol – yn aml mae ymchwilwyr yn syrthio drwy’r bylchau hyn.
- Mae cyflwyno cyllid ar gyfer trosglwyddiadau yn debygol o fod yn ffordd bositif o helpu i ddarparu cefnogaeth yn ystod y cyfnodau anodd hyn.

Cyfleoedd i bawb: y neges allweddol o’r holl adborth oddi wrh randdeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol oedd cynlluniau ariannu cyfredol, bylchau mewn cyfleoedd ariannu ac awgrymiadau ar sut i lenwi’r bylchau yw’r canlynol:


Dylid darparu cyfleoedd cyllido ar gyfer yr holl ddisgyblaethau, ar draws pob sector ac ar bob cam o’r llwybr gyrfa ymchwil.

Ystyrir bod cyfleoedd cyfartal yn hynod o bwysig, ac hefyd bod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn ymwybodol o’r heriau wrth iddynt ymddangos, ac ar yr un pryd adnabod datrysiadau ym mhob cyfnod.

10 Hyrwyddwyr datblygu gyrfa ymchwil yng Nghymru

Nodwyd gan randdeiliaid ac aelodau o’r gymuned ymchwil iechyd a gofal yr angen am gyfanswm o 55 o hyrwyddwyr i ddatblygu gyrfaoedd ymchwil. Dangosir yr hyrwyddwyr a amlygwyd fwyaf aml ar y graff isod:

Ffigwr 4: Hyrwyddwyr ar gyfer Datblygu Gyrfa Ymchwil yng Nghymru




Dyma ddywedodd rhai ymatebwyr i'r arolwg:

- *Amser wedi ei neilltuo ar gyfer ymchwil...Gweld ymchwil fel rhan o'n swyddi yn hytrach na'i fod yn ychwanegiad. Gweld ymchwil fel 'gwaith go iawn.'*
- *Cydnabyddiaeth bod [ymchwil] o wir werth clinigol ac nid yn 'ychwanegiad dymunol'; wedyn byddai pethau eraill yn deillio o hynny – amser, adnoddau, cefnogaeth, ffioedd cyrsiau ayyb.*
- *Sefydlu diwylliant o ymchwil a gwerthuso ym mhob agwedd o ofal. Gwneud model rôl o werth ymchwil ffurfiol er budd y dinasyddion lleol, clinigwyr / ymchwilwyr a'r gwasanaeth. Arddangos llwybr gyrfa ar sail ymchwil clinigol gwir, ystyrlon ac integredig.*

11 Rhwystrau i ddatblygu gyrfa ymchwil yng Nghymru

Nodwyd cyfanswm o 59 rhwystr i ddatblygu gyrfa ymchwil gan randdeiliaid ac aelodau o'r gymuned ymchwil iechyd gofal. Dangosir y rhwystrau a nodwyd fwyaf aml yn y graff isod:

Ffigwr 5: Rhwystrau i Ddatblygu Gyrfa Ymchwil:



Dyma ddywedodd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg:


- *Gorfod edrych allan am arian beunydd. Fel clinigwr nid yw fy niddordebau ymchwil yn derbyn unrhyw sylw. Pe bawn yn gweithio fel darlithydd rhan amser fe fyddwn yn weladwy ac yn gwneud cynnydd yn fy ngyrfa glinigol ac fel darlithydd. Er bod gennyf ddoethuriaeth, rwyf yn dal i gael fy ngweld fel bydwaig. Gan fy mod yn gweithio rhan amser, fe ddywedwyd wrthyf unwaith na allwn fod hyd yn oed yn graidd yn fy newis faes o ymarfer clinigol – nid oedd y ffaith fy mod yn gweithio llawn amser fel myfyriwr PhD yn cyfrif am ddim. Rwyf yn teimlo bod hyn wedi arafu fy nghynnydd clinigol ac nad wyf yn cael fy nghymryd o ddifrif. ...*
- *Diwylliant sydd yn edrych ar ymchwil fel rhywbeth ychwanegol ond heb fod yn hanfodol, a PHOB AMSER yn ail i ofal clinigol. Mae hyn yn arwain at ddiffyg amser, diffyg cefnogaeth ariannol a diffyg cydnabyddiaeth.*
- *Dim gwerth yn cael ei roi ar ymchwil. Ni welir gweithgareddau ymchwil fel gwaith go iawn. Diffyg adnoddau – cyllid, cyfleusterau, amser.*
- *Ariannu, derbyn ar y cwrs, canfod mentoriaid, rheolwyr ddim yn deall eich rôl na'r budd y gall dysg ei roi i'ch rôl / gyrfa, ac maent yn dweud nad ydych ei angen.*

- Diffyg rolau ymchwil integredig clinigol a llwybrau gyrfa ar gyfer gweithwyr proffesiynol an-feddygol iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn rhaid i mi ddewis rhwng dilyn gyrfa glinigol a symud llawn amser i faes ymchwil.
- Yr amgylchedd hynod gystadleuol o ran cyllid a swyddi gyda contractau tymor byr yn unig ar gael, hyd yn oed ar ol bod yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllid. Nid yw'r brifysgol yn cynnig swyddi tymor hirach hyd yn oed ar ol sicrhau'r cyllid. Mae ansicrwydd gwaith a dim rhagolygon yn yr hir dymor yn ddadrihiol ac yn creu gofid i'r ECRs.
- Y model gwaith, gan fod contractau tymor byr yn broblem O HYD ac nid ydynt o unrhyw gymorth i gadw ymchwilwyr da na datblygu PI na CIs. Os na fydd contract unigolyn yn cynnwys arian grant, ni allant gael eu rhestru fel PI, sydd yn annheg iawn ac yn rhwystr i adeiladu gyrfa ymchwil.

12 Gwelliannau i lwybrau gyrfaedd ymchwil yng Nghymru

Cynigiwyd cyfanswm o 58 awgrym ar gyfer gwella llwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru, wedi eu cyflwyno gan randdeiliaid ac aelodau o gymuned ymchwil iechyd a gofal. Y gwelliannau a amlygwyd fwyaf aml yw'r rhai a ddangosir yn y graff isod:

Ffigwr 6: Gwelliannau i Ddatblygu Gyrfaedd Ymchwil



Dyma ymateb rhai o ymatebwyr i'r arolwg:

- Byddwch yn fwy dewr gyda'r modelau ariannu er mwyn ei gwneud yn haws cychwyn i fyny'r ysgol a dechrau hyfforddi. Nid yw cyflogau nad ydynt yn

cyrraedd Band 1 Agenda ar gyfer Newid yn addas ag gyfer staff sydd â'u cyflog sylfaenol yn sylweddol uwch.

- *Buddsoddi rhagor mewn cynlluniau unigol er mwyn cynnig cyflog teilwng waeth beth yw'r band. Hwyluso codi pontydd rhwng HEIs a HBs i gynnig swyddi ar y cyd yn hytrach na'r trefniadau cymhleth ac ad hoc sydd yn bodoli yn awr.*
- *Mae amser yn bwysig iawn hefyd, nid yw rhyddhau staff am un diwrnod y mis i gyflawni prosiectau yn ddigonol. Mae yn eu rhoi mewn perygl o fethu, felly mae angen rhyddhau amser digonol a chaniatau secondiadau, darparu'r amser angenrheidiol i ffwrdd oddi wrth ddyletswyddau clinigol er mwyn iddynt allu ffocysu. Ni fydd staff yn awyddus i weithio y tu allan i oriau gwaith, mae angen cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd ac ar y funud mae'n ofynnol gwneud llawer o waith ymchwil y tu allan i oriau gwaith.*
- *Mae angen rhagor o staff yn y byrddau iechyd er mwyn gallu neilltuo amser ar gyfer ymchwil. Gall hyn fod yn anodd, yn enwedig yn ystod y pandemig cyfredol, ond pe byddai cefnogaeth fe fyddai hyn yn bosibl.*
- *Mwy o swyddi, mwy o lwybrau academaidd clinigol ar gyfer yr HOLL staff, nyrsus, AHP, myfyrwyr meddygol a doctoriaid.*
- *Newid y diwylliant a'r cymhellion er mwyn sicrhau bod mentora a chefnogi eraill yn cael ei gydnabod fel cyfraniad gwerthfawr i'r ymdrech ymchwil.*
- *Contractau tymor hirach, gan gynnwys contractau parhaol er mwyn creu gwell sefydlogrwydd o safbwynt swyddi. Nid yw hyn yn anodd ei gyflawni ac mae angen iddo fod yr hyn y mae sefydliadau addysg uwch ac arianwyr yn anelu ato. Mae gennym nifer fawr o ymchwilwyr ôl-ddoethurol gyrfa gynnar sydd yn meddu ar sgiliau ardderchog ond mae'r ffordd bresennol o wneud pethau yn arwain at symudedd eithriadol a cholli'r sgiliau hyn o Gymru.*
- *Gallai gwelliannau ar gyfer y dyfodol gynnwys cyswllt rhwng prifysglion a gweithwyr proffesiynolmewn practis. Mae [academyddion clinigol] yn gallu body n gyswllt ardderchog rhwng ymchwil and ymarfer.*
- *Gwell cydweithrediad rhwng y gwahanol sectorau. Swyddi wedi eu cyd-gyllido (clinigol ac academaidd).*
- *Amgylchedd gwaith lle derbynnir ymchwil fel rhan o'r swydd ac nid ychwanegiad neu rôl ategol. Amgylchedd lle caiff ymchwil gweithredol ei annog a'i gefnogi gan bob lefel o reolwyr.....*
- *Mae angen i ni gynnal momentwm COFID, bod yn ganolog yn yr ysbytai, bod yn weladwy, bod yn rhan o ofal safonol.*
- *Mae angen i ni ddefnyddio brwdfrydedd y staff cyffredinol oedd yn gwirioneddol fwynhau bod yn rhan o ymchwil yn ystod y pandemig. Yn barod, rwyf yn teimlo fel bod hyn yn cael ei anghofio.*

Ceir eglurhâd manwl isod ar y deg gwelliant a nodwyd fwyaf aml ac y teimlai rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol fyddai yn hwyluso gyrfa ymchwil.

12.1 Mwy o arian ar gyfer gyrfaedd ymchwil

Mae'r angen am fuddsoddi mwy o arian ac adnoddau mewn llwybrau gyrfaedd ymchwil wedi ymddangos yn aml yn yr adolygiad hwn gydag arian ac adnoddau yn cael eu nodi fwyaf aml fel y galluogwyr mwyaf gan randdeiliaid ac aelodau o gymuned ymchwil iechyd a gofal, tra bod cyllid annigonol y rhwystr a nodwyd amlaf. Gellid mynd i'r afael â'r bylchau gyda chyfleoedd ariannu a llwybrau gyrfa a mwy o fuddsoddiad a chyflwynwyd nifer sylweddol o gynigion o safbwynt yr hyn y gellid ei wneud er mwyn gwella llwybr gyrfa yng Nghymru (gweler uchod).

Ar y funud, nid oes gan Gymru arian digonol i ddarparu llwybr gyrfa Gymru gyfan ar gyfer pob cam mewn gyrfaedd ymchwil, ym mhob sector ac ar gyfer pob disgyblaeth. Roedd rhanddeiliaid mewn gofal cymdeithasol yn enwi cyllid annigonol yn benodol ac yn nodi gwahaniaeth ariannu a buddsoddi mewn gyrfaedd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, er na chafodd hyn ei faintioli yn yr adolygiad hwn. Meysydd eraill a amlygwyd yn benodol oedd cyllid annigonol mewn gofal sylfaenol, yn enwedig mewn deintyddiaeth a diffyg buddsoddiad mewn ymchwil gan sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol. Roedd nifer o randdeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn nodi diffyg cyfartaledd mewn cyllid rhwng y disgyblaethau, yn arbennig rhwng gyrfaedd meddygol a gyrfaedd iechyd eraill megis nyrsus, bydrwagedd a gweithwyr proffesiynol iechyd perthynol.

Er mwyn llenwi'r bylchau, mae rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi awgrymu y dylid buddsoddi mwy o arian mewn gyrfaedd ymchwil yng Nghymru a'r gefnogaeth berthynol sydd ar gael megis pecyn o gefnogaeth ochr yn ochr gyda'r cyfleoedd ariannu er mwyn darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfer ymchwilwyr.

Ar y funud mae'r cyllidebau yn rhy brin yng Nghymru i fuddsoddi mewn llwybrau gyrfaedd ymchwil ac ymddengys bod yr anghysondeb sylweddol mewn ariannu rhwng y NIHR yn Lloegr ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn anferth, gydag ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi bod llai o gyfleoedd ar gyfer ymchwilwyr yng Nghymru. Roedd yr adborth yn seiliedig ar yr angen i gael gwell cysondeb o ran lefelau buddsoddiad yng Nghymru a'i bod yn ofynnol meintioli hyn a chymryd camau i'w gywiro os ydym am ddenu a chadw ymchwilwyr.

Gyda rhagor o arian a buddsoddiad mewn gyrfaedd ymchwil, gellid gwella llawer o'r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn, a gellid mynd i'r afael â nifer fawr o'r rhwystrau megis cyllid ar gyfer neilltuo amser, cynlluniau mentora, cyllid ar gyfer darparu pecyn cefnogaeth ac arweiniad, cyfleoedd hyfforddiant, darparu cefnogaeth ariannol a sicrwydd swyddi ar gyfer ymchwilwyr, a mwy o swyddi academaidd / clinigol ar y cyd. Gallai rhagor o arian sefydlu swyddi arweinyddiaeth ymchwil a swyddi penodol ar gyfer ymchwilwyr yn y GIG ac mewn awdurdodau lleol, ariannu seilwaith ar gyfer

cefnogi gyrfaoedd ymchwi trwy rwydweithiau ymchwil a phecynau cyfathrebiaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch cyfleoedd ariannu

Mae datblygu gyrfaoedd ymchwil, ac yn benodol sicrhau arian ychwanegol i'w cefnogi, yn uchelgais hirdymor ac mae nifer o'r hyrwyddwyr, rhwystrau ac awgrymiadau yn y papur hwn wedi bod yn broblem am nifer fawr o flynyddoedd - ac yn debygol o gymryd cryn amser i wella. Mae adborth rhanddeiliaid yn awgrymu y byddai strategaeth tymor hir ar gyfer gwella gyrfaoedd ymchwil yn ffordd ardderchog o ddatblygu capasiti a gallu ymhlith gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

12.2 Hyrwyddo amser ar gyfer ymchwil

Mae'r angen am sicrhau amser diogel ar gyfer clinigwyr ac ymarferwyr i wneud gwaith ymchwil yng Nghymru hefyd wedi bod yn thema allweddol yn yr adolygiad hwn gyda galluogi amser diogel yn dilyn yn agos fel gwelliant yn ôl rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a diffyg amser diogel oedd y rhwystr a nodir amlaf.

Mae rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi awgrymu bod datblygu systemau a phrosesau ar gyfer galluogi gyrfaoedd ymchwil yn hanfodol. Mae'r adolygiad hwn wedi amlygu'r ffaith bod yna unigolion gyda'r dymuniad a'r sgiliau i wneud gwaith ymchwil ond bod arnynt angen amser a chyllid i brynu eu hamser a sicrhau cefnogaeth fel y gellir rhyddhau gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, sicrhau nifer digonol o staff a lefelau staffio i gwrdd â hyn. Nodwyd ei bod yn arbennig o anodd sicrhau amser wedi ei neilltuo ar gyfer ymchwil mewn rhai sectorau penodol e.e. gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol a nodwyd hefyd gan rai rhanddeiliaid a iechyd a gofal bod gan weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol brofiadau o ran ceisio cael cefnogaeth ar gyfer ymchwilwyr lle'r oedd gweithredwyr, cyfarwyddwyr a rheolwyr yn y GIG / awdurdodau lleol yn anfodlon caniatáu rhyddhau staff o'u rolau er mwyn gwneud gwaith ymchwil am gyfnod cytunedig.

Mae cael cynlluniau ar gyfer neilltuo amser megis gwobr Amser Ymchwil GIG gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn fuddiol iawn gan fod hyn yn darparu gwobr ariannol i glinigwyr ar gyfer neilltuo amser i wneud gwaith ymchwil. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy ar gyfer galluogi amser datblygu ymchwilydd gan fod y cynllun mor gystadleuol, mae galw mawr amdano ac nid yw'n cynnwys gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig sicrhau bod amser ar gael trwy gynnwys ymchwil mewn swydd ddisgrifiadau a chynlluniau swydd, fodd bynnag roedd rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn awgrymu bod angen i hyn fynd ymhellach a bod angen neilltuo amser ar gyfer holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol; bod angen cydnabod cynnwys ymchwil mewn swydd ddisgrifiadau, angen cymryd hyn o ddifrif a'i weithredu yn gyson ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â mecanwaith i fonitro hyn ledled y sefydliad. Roedd rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn nodi ei bod yn hanfodol ein bod yn creu'r amodau a'r

amgylchedd cywir ar gyfer gwaith ymchwil a bod sicrhau amser wedi ei neilltuo yn rhan bwysig o hyn.

12.3 Llwybr gyrfa eglur

Roedd cael llwybr gyrfa ymchwil eglur, strwythurol, weladwy ar gyfer pob cam mewn ymchwil ac ar gyfer pob disgyblaeth wedi ei awgrymu gan randdeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol fel modd o wella datblygiad gyrfa ymchwil.

Roedd yr adborth oddi wrth randdeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn awgrymu y byddai cynnig pecyn cydlynol o gefnogaeth a llwybr clir o gymorth mawr i gyfuno'r holl gyfleoedd gyrfa ymchwil yng Nghymru yn un cynnig cydlynol. Byddai llwybr gyrfa ymchwil clir a gweladwy yn sicrhau gwell hygyrchedd, yn ei gwneud yn haws i bobl ddeall a gwerthfawrogi'r ymroddiad sydd ei angen, yn ogystal â rhoi iddynt weledigaeth glir o beth yw'r camau nesaf ar gyfer datblygu eu gyrfaedd a'r cyfleoedd gyrfa yn y tymor hir. Er nad yw gyrfaedd ymchwil bob amser yn dilyn llwybr syth a bod llawer o lwybrau gyrfa yn unigryw i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol unigol, ystyrir yn gyffredinol bod cael llwybr gyrfa strwythurol fel dangosydd yn ffordd ddefnyddiol iawn o gyflwyno'r cyfleoedd sydd ar gael, rhoi cyfarwyddyd a rheoli disgwyliadau'r rhai fyddai'n hoffi dilyn gyrfa mewn ymchwil.

Roedd adborth rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn nodi bod NIHR wedi creu strwythur clir fel y gall ymchwilwyr weld ble maent yn sefyll ar y llwybr hwnnw ac i ble y mae'n ofynnol iddynt fynd – mae hyn o gymorth mawr. Awgrymir y gallai Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ddatblygu rhywbeth cyffelyb.

12.4 Cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth

Awgrymwyd pecyn cefnogaeth ac arweiniad hefyd fel gwelliant a fyddai o gymorth i ymchwilwyr ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil. Ystyrir hefyd bod hyn yn allweddol bwysig; yn ogystal, tanlinellwyd diffyg cefnogaeth ar gyfer gyrfaedd ymchwil fel un o'r rhwystrau i ddatblygiad gyrfa ymchwil.

Awgrymwyd hefyd y byddai gwasanaeth ar wahân i ddarparu cefnogaeth a chynghor ynghylch gyrfaedd ymchwil yn fuddiol iawn – lle gallai ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol gael mynediad at wybodaeth, cynghor ac arweiniad annibynnol ynghylch eu gyrfa, cymorth i ymdopi gyda'r systemau ac arwyddbostio, pecynnau cymorth, yn enwedig ar gyfer y rhai nad ydynt eisoes yn perthyn i grŵp, rhwydaith na sefydliad ymchwil.

12.5 Cynlluniau mentora a modelau rôl

Mae llawer o randdeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi awgrymu y byddai darparu cynlluniau mentora a mynediad at fodelau rôl o gymorth sylweddol i wella'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu gyrfaoedd ymchwil. Hefyd, gan eu bod yn un o'r hyrwyddwyr a nodir amlaf, nodwyd bod mentoriaid ymchwil yn hanfodol bwysig ac yn hanfodol ar gyfer datblygu ymchwil. Mae mentoriaid yn gallu rhoi cefnogaeth ac arweiniad ac egluro llwybr gyrfa ymchwil mewn modd hawdd ei ddeall a rhoi help i ymdopi gyda systemau cymhleth. Mae mentoriaid hefyd yn gallu rhoi cefnogaeth ar bob cam o yrfa ymchwilydd – o'r cyfnod cynnar ymlaen - ond mae adborth yn awgrymu bod uwch ymchwilwyr hefyd yn cael budd sylweddol oddi wrth gymorth mentoriaid ymchwil.

Roedd rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod bod cynlluniau mentora eisoes yn bodoli yng Nghymru, yn enwedig o fewn sefydliadau addysg uwch. Mae galw mawr am lawer o'r cynlluniau presennol hyn ac yn aml nid oes digon o fentoriaid. Mae partneriaeth Cymdeithas Ysgolorion Cymru – Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru yn cynnwys cynlluniau mentora ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer ymchwilwyr ar bob cam o'u gyrfaoedd. Mae'r cynlluniau hyn yn eu dyddiau cynnar ar y funud ond wrth iddynt ddatblygu fe fyddant yn gynyddol yn darparu cyfleoedd sylweddol fydd o wir werth i ymchwilwyr ledled Cymru. Mae gan ymchwilwyr o Gymru fynediad hefyd at gynlluniau mentora Prydain gyfan, er enghraifft rhaglen fentora Academi Gwyddorau Meddygol sydd yn darparu cefnogaeth datblygu gyrfa i ymchwilwyr ôl-ddoethurol a iechyd biofeddygol annibynnol a Broadening Horizons, a lansiwyd yn 2020 gyda chyllid oddi wrth y Wellcome Trust, sef rhaglen fentora draws-sector ar gyfer cefnogi, datblygu a galluogi ymchwilwyr gyrfa gynnar sydd â diddordeb mewn ymchwil drosi ar gyfer effaith ar iechyd. Fodd bynnag, mae cynlluniau mentora presennol ar draws Cymru yn annigonol mewn nifer ac yn amrywio yn fawr gan eu bod yn seiliedig ar fodelau gwahanol (er enghraifft model Academi Gwyddorau Meddygol sydd wedi ei ardstyio gan OSCAR) ac mae'n bosibl bod eu hansawdd yn amrywio hefyd gan fod mentoriaeth ymchwil yn arbenigol iawn. Mae cael y mentoriaid cywir mewn swyddi mentora arweinyddiaeth hefyd yn hanfodol. Gwelir bod prinder mentoriaid yng Nghymru, yn ogystal â phrider amrywiaeth o ran y mentoriaid sydd ar gael e.e. ar gyfer pob un o'r disgyblaethau. Ystyrir hefyd nad yw mentora yn cael ei gydnabod na'i werthfawrogi fel rhan o fodel baich gwaith.

Ystyrir hefyd bod modelau rôl yn bwysig, yn enwedig mewn meysydd lle mae llai o gapasiti ymchwil, er enghraifft o fewn gofal cymdeithasol, a bod modelau rôl - ar gyfer nyrsus, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol iechyd perthynol - yn bwysig i unigolion sydd yn ystyried cychwyn gyrfa ymchwil weld eraill sydd wedi cyflawni hyn a derbyn ysbrydoliaeth o'r profiad.

Awgrymwyd bod y cynlluniau mentora ymchwil ar draws Cymru angen eu hadolygu a bod angen datblygu model safonol er mwyn hyrwyddo sefydlu a chynnal cynlluniau mentora ansawdd uchel. Gydol yr adolygiad nodir yr angen am sicrhau bod cynlluniau mentora yn cael eu sefydlu ar gyfer yr holl ddisgyblaethau ar draws Cymru gyfan, bod nifer ddigonol o fentoriaid yn cael eu hadnabod er mwyn sicrhau llwyddiant y cynlluniau a bod mentora yn cael ei werthfawrogi a'i gydnabod yn ddigonol fel gwethgaredd craidd.

Awgrymwyd hefyd y byddai mentoriaeth ymchwil ar draws Cymru yn gwella pe datblygid agwedd Cymru gyfan a thim canolog gyda rôl i weithredu hyn, er enghraifft gellid adolygu cynlluniau mentora a datblygu fframwaith safonol ar gyfer mentora ymchwil.

12.6 Cyfleoedd gyrfa ddiogel yn y tymor hir

Ystyrid y byddai cael cyfleoedd gyrfa tymor hir ar gyfer yr holl ddisgyblaethau yn welliant sylweddol a fyddai o gymorth i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddatblygu gyrfaedd ymchwil. Ystyrid y byddai cael amodau cyflogaeth diogel ar gyfer ymchwilwyr hefyd yn galluogi, ond bod diffyg sicrwydd gwaith a dim cyfleoedd gyrfa hirdymor yn nodweddu fel dau o'r rhwystrau i ddatblygiad gyrfa ymchwil. Roedd yr adborth oddi wrth rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi mai nifer fach o swyddi diogel sydd ar gael i ymchwilwyr yng Nghymru, ac mae hyn yn golygu prinder cyfleoedd.

Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod prifysgolion wedi ymrwymo i ddarparu cyflogaeth tymor hir, diogel, i ymchwilwyr a'u bod yn ceisio canfod dulliau creadigol o gyflwyno hyn ond ei fod yn heriol iawn oherwydd cyfyngiadau ariannol. Awgrymodd un rhanddeiliad mai datrysiad posibl i hyn fyddai contractau hyblyg trwy ddarparu contract gwaith HEI Cymru a fyddai yn gcontract gwaith cenedlaethol ac yn caniatáu i ymchwilwyr symud o gwmpas HEIs. Byddai hyn o fantais i gyflogwyr ac yn rhoi i ymchwilwyr y cyfle i ehangu eu gorwelion a'u gwybodaeth. Awgrymodd rhanddeiliad arall y syniad o weithredu cynlluniau adleoli ar draws Cymru. Roedd awgrym arall yn tanlinellu'r angen am fwy o gyllid craidd ar gyfer ymchwilwyr a defnyddio modelau cyllido er mwyn hyrwyddo swyddi ymchwil craidd o fewn HEIs, gan ariannu trwy gymysgedd o grantiau ac arian craidd.

Fe fyddai o gymorth gweld rhai swyddi lefel uwch gyda chyfrifoldeb dros ymchwil yn y GIG ac o fewn awdurdodau lleol er mwyn darparu arweinyddiaeth mewn ymchwil (e.e. Cydarwyddwyr Ymchwil, Ymchwilwyr Ymgynghorol, Cyfarwyddwyr Ymgynghorol Ymchwil Nyrsio) yn dangos ymrwymiad i ymchwil, yn darparu modelau rôl i arwain ar R&D ac yn helpu i gynnwys ymchwil fel rhan o wasanaeth, yn ogystal â darparu llwybr gyrfa ymchwil yn y GIG / awdurdodau lleol a chyfleoedd gyrfa tymor hirach. Mae enghreifftiau o swyddi o'r fath ar lefel ymgynghorol, a swyddi fel Cyfarwyddwr Ymgynghorol Nyrsio ar gyfer ymchwil.

Am resymau cyffelyb, mae cael cyfleoedd gyrfa o fewn academia hefyd yn bwysig iawn, er enghraifft swyddi academaidd clinigol /meddygol ar y cyd. Mae crêd ymhlith rhanddeiliaid bod tanfuddsoddiad cyffredinol wedi digwydd mewn gyrfaoedd academig dros y deng mlynedd diwethaf, yn enwedig mewn prifysgolion, ac mae hyn wedi ei dynnu yn ôl yn raddol. Roedd rhanddeiliaid yn cyfeirio at y boblogaeth academaidd fregus sydd yn ganlyniad i hyn, gyda cadw ymchwilwyr a chynladwyedd yn broblem fawr a thanlinellodd un rhanddeiliad yr angen am ddatblygu strategaeth ar gyfer cynladwyedd ymhlith y boblogaeth ymchwil academaidd yn y dyfodol. Dros amser, mae uwch ymchwilwyr wedi gadael Cymru a symud i sefydliadau academaidd ledled y DU ac yn rhyngwladol, heb i'w swyddi gael eu llenwi. Mae enghreifftiau o hyn yn digwydd i'w gweld mewn iechyd poblogaeth, gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol. Mae hefyd feysydd lle ceir nifer gyfyngedig o uwch swyddi arweinyddiaeth academaidd a swyddi ar gyfer ymchwilwyr yng Nghymru, er enghraifft ym maes strôc, gofal dwys a gofal cymdeithasol oedolion.

Yn ogystal â'r angen am gyfleoedd ar gyfer gyrfa tymor hir, roedd rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn amlygu pwysigrwydd darparu'r amodau cywir ar gyfer ymchwilwyr mewn sefydliadau addysg uwch, yn enwedig darparu gwaith parhaol a diogel – ystyrir bod hyn yn arbennig o bwysig. Roedd adborth rhanddeiliaid yn awgrymu ein bod angen archwilio dulliau gwahanol lle gallai ymchwilwyr ganfod swyddi a fyddai yn rhoi peth sicrwydd a sefydlogrwydd i'r boblogaeth ymchwil. Mae byrder y cylchoedd ariannu mewn ymchwil wedi golygu bod llawer ar gontractau byr a thros dro sydd yn cyfyngu ar sicrwydd eu swyddi gan eu gwneudyn fwy bregus ac yn fwy tueddol o gael eu trin yn wael.

Fel ffordd ymlaen, awgrymwyd gweithio gyda'r prifysgolion yng Nghymru er mwyn buddsoddi mewn dysg a datblygiad ac archwilio datrysiadau er mwyn gwneud swyddi tymor hir yn fwy posibl neu gontractau ar gyfer pobl yn gweithio yn y canolfannau a'r unedau ymchwil, er enghraifft archwilio'r posibilrwydd o ddarparu arian craidd ar gyfer staff ymchwil. Er bod elfen ansefydlog i ymchwil a'i weithlu, mae angen enfawr am sicrhau peth sefydlogrwydd.

12.7 Swyddi clinigol / meddygol ac academaidd

Roedd llawer o rhanddeiliaid ac ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn tanlinellu'r ffaith y byddai sefydlu rhagor o swyddi academaidd clinigol / meddygol fel rhan o'r llwybr gyrfa ymchwil yn welliant allweddol. Mae hyn hefyd yn cynnwys galluogwyr ar gyfer datblygu gyrfa ymchwil a nodwyd prinder swyddi academaidd clinigol yng Nghymru hefyd fel rhwystr.

Mae gweithiwr proffesiynol gofal iechyd cymwysedig yn academydd clinigol sydd yn gweithio mewn academia, fel arfer mewn ymchwil, dysgu neu yn y ddau. Ar y funud,

nid oes swydd academiaidd glinigol sydd yn cyferbynu'n uniongyrchol gyda swydd gweithiwr proffesiynol gofal iechyd.

Ystyrir bod y mathau hyn o swyddi sydd yn pontio clinigol / meddygol ac academia yn gymharol anghyffredin yng Nghymru. Dim ond 2% o ymatebwyr yr arolwg oedd yn dal swydd academig glinigol a 7% yn unig oedd yn glinigwyr neu ymarferwyr gyda chontract ymchwil barhaol gyda sefydliad addysg uwch. Ym maes canser, er enghraifft, nid oes swydd academiaidd glinigol wedi bodoli ers 13 blynedd.

Disgrifiodd rhai o weithwyr proffesiynol gofal iechyd eu siom am hyn gan mai yn aml y cymhelliad i gyflawni ymchwil yw'r dymuniad i wella ymarfer ymchwil, ond nid yw'r system yn fodlon cynnig swyddi ar y cyd yng ngwir ystyr y term. Roedd clingwyr oedd wedi dringo ar lwybr gyrfa ymchwil wedi eu siomi ac yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddewis rhwng bod unai yn glinigol neu yn academiaidd, gyda'r holl risgiau a'r newidiadau mewn amodau a thelerau swyddi yr oedd hyn yn ei olygu . Roedd enghreifftiau o weithwyr proffesiynol gofal iechyd wedi gadael eu swyddi clinigol er mwyn cymryd secondiad ymchwil, ac yna'n darganfod eu bod wedi colli eu swyddi clinigol a bod raid iddynt dderbyn swyddi ar raddfa is. Nodwyd gan un ymchwilydd gofal iechyd y byddai rhagor o swyddi clinigol / meddygol academiaidd yn llwyr newidi gofal cleifion.

Byddai cael rhagor o swyddi clinigol / meddygol academiaidd yn darparu gwell cymhelliad i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol wneud ymchwil, yn hyrwyddo gwell cyfleoedd datblygu gyrfa ymchwil ac hefyd yn dod â phraxis yn nês at academia a byddai datblygu ymchwil sydd yn cwrdd â blaenoriaethau gofal cymdeithasol ac anghenion gwasanaeth/praxis yn creu gwell ecosystem ar gyfer ymchwil. Gallai'r swyddi hyn helpu i greu diwylliant ymchwil yn y GIG / awdurdodau lleol a byddai hyn o fudd i sefydliadau addysg uwch mewn achosion lle mae ymchwilwyr a darlithwyr wedi eu gwahanu oddi wrth braxis, weithiau ers llawer o flynyddoedd. Byddai hefyd yn hyrwyddo gwell cydweithrediad rhwng y GIG / awdurdodau lleol ac academia.

12.8 Gwell cydweithredu ar seilwaith

Ystyrir bod cydweithredu ar seilwaith mewn ymchwil hefyd yn welliant o ran helpu ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu gyrfa ymchwil. Roedd adborth a gafwyd o'r adolygiad hwn yn amlygu pwysigrwydd gwell cydweithrediad ar nifer o lefelau:

- Ar lefel disgyblaeth, gwella agweddau amlddisgyblaethol
- Ar draws gwahanol sectorau, er enghraifft iechyd a gofal cymdeithasol
- Rhwng sefydliadau, er enghraifft roedd adborth yn awgrymu y dylai sefydliadau addysg uwch gydweithio'n agosach a pheidio â chystadlu yn erbyn ei gilydd

- Ar draws sefydliadau, yn enwedig rhwng y GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch. Roedd yr adborth yn awgrymu bod gweithio mewn partneriaeth rhwng y GIG a phrifysglion yn wan ac i wella hyn fe ddylid creu swyddi clinigol / meddygol academiaidd gyda chynlluniau ar y cyd, strategaethau R&D ar y cyd ac hefyd Datganiad o Fwriad / MoU gyda chyfres o egwyddorion ar gyfer cefnogi ymchwilwyr a gwella ymchwil a gofal.
- Ar draws seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a grwpiau seilwaith megis sefydliadau GIG, Unedau Treialon Clinigol a Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil

Byddai dwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol gyda chyfrifoldeb dros gefnogi gyrfaoedd ymchwil - er enghraifft Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, HEIW a Gofal Cymdeithasol Cymru - yn ddefnyddiol iawn ac yn hyrwyddo cefnogaeth i yrfaeodd fel cyfrifoldeb ar y cyd.

Mae'r adborth wedi awgrymu bod angen agwedd ar sail systemau er mwyn gwella gyrfaoedd ymchwil yn sylweddol a bod rôl yma i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddarparu'r bont i hwyluso hyn. Roedd yr awgrymiadau yn nodi y gallai Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gael rôl ganolog mewn hwyluso cydweithredu a rhwydweithio, megis fforwm cenedlaethol wedi ei neilltuo ar gyfer gwella gyrfaoedd ymchwil, galluogi datblygiad strategau, rhannu gwybodaeth, rhannu ymarfer gorau a rhwydweithio.

Gan mai bychan yw Cymru, pe gellid gwella cydweithredu a rhwydweithio, fe fyddai'n bosibl cael pwerdy yng Nghymru. Mae cysylltiadau da a chyd brynu rhwng yr holl bartneriaid, sef y GIG, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch, cyrff proffesiynol, arianwyr a'r llywodraeth yn hanfodol os am ddatblygu capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru.

Er mwyn gwneud cynnydd, byddai angen lefel uchel o arweinyddiaeth yng Nghymru i arwain rhaglen gwelliannau a hwyluso cydweithrediad gyda phartneriaid yn genedlaethol ac ar draws y DU. Cafodd arweinyddiaeth ymchwil hefyd ei amlygu fel un o'r hyrwyddwyr ar gyfer datblygu gyrfa ymchwil. Mae angen arweinyddiaeth ymchwil fel rhan o agwedd cynnal systemau er mwyn dwyn y rhanddeiliaid allweddol ynghyd sef Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, HEIW a Gofal Cymdeithasol Cymru. Awgrymwyd y gellid darparu arweinyddiaeth drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fel rhan o'r rôl ganolog a awgrymwyd ar gyfer hyrwyddo cydweithrediad.

12.9 Sefydlu ymchwil fel rhan o'r GIG / awdurdodau lleol

Awgrymwyd bod sefydlu ymchwil fel rhan o'r GIG ac awdurdodau lleol yn hanfodol ar gyfer creu amgylchedd sydd yn hwyluso datblygiad gyrfaoedd ymchwil. Roedd rhai o'r hyrwyddwyr perthynol yn yr adolygiad hwn yn cynnwys cefnogaeth oddi wrth sefydliad sy'n cyflogi, cael diwylliant ymchwil cefnogol a chydabyddiaeth i werth ymchwil,a

chynnwys ymchwil ac ymarfer mewn swyddi. Yn yr un modd, mae rhwystrau perthynol i ddatblygu gyrfa ymchwil yn cynnwys y ffaith bod gan y GIG / awdurdodau lleol ddiwylliant ymchwil gwael lle nad yw ymchwil yn cael ei annog na'i alluogi oherwydd diffyg cefnogaeth oddi wrth sefydliadau sy'n cyflogi.

Mae arddangos manteision a gwerth ymchwil a'i gyswllt gyda gwasanaeth / ymarfer yn hanfodol ar gyfer dangos ei ddylanwad ar wasanaethau, gofal, ymarfer a gwella ansawdd. Mae datblygu diwylliant ymchwil hefyd yn bwysig ar gyfer cynnwys ymchwil mewn gwaith timau, cynyddu cysylltiad a chodi proffil ymchwil, sicrhau amser wedi ei neilltuo, hyrwyddo ymchwil fel nodwedd mewn swydd ddisgrifiadau ac annog y defnydd o dystiolaeth. Dylai ymchwil fod yn rhan o 'fusnes pawb' oherwydd er na fydd holl gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn dod yn ymchwilwyr, fe ddylai bod lefel o ymwybyddiaeth ymchwil ar draws sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cefnogi ymchwil fel busnes craidd mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer creu'r amgylchedd cywir ar gyfer datblygu ymchwilwyr ac mae'n dangos i weithlu iechyd a gofal cymdeithasol (a fydd yn cynnwys arweinwyr ymchwil y dyfodol) bod ymchwil yn flaenoriaeth.

Awgrymwyd y dylid sefydlu ymchwil fel rhan o'r GIG / awdurdodau lleol ar lefel bwrdd, gydag arweinyddiaeth ymchwil yn dod oddi wrth weithredwyr y GIG/ awdurdodau lleol gan integreiddio ymchwil yn llwyr i wasanaethau ac ymarfer. Dylai ymchwil fod yn amlwg mewn cynlluniau blynyddol gan y GIG/ awdurdodau lleol ac awgrymwyd hefyd y dylid bod gan sefydliadau dargedau ymchwil. Byddai hyn o gymorth i'r GIG / awdurdodau lleol ddenu a chadw gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol gyda diddordeb mewn ymchwil ac yn arwain at newid mewn diwylliant.

12.10 Codi ymwybyddiaeth /proffil ymchwil

Mae adborth rhanddeiliaid wedi awgrymu bod gwir angen codi ymwybyddiaeth a phroffil ymchwil a gyrfaedd ymchwil, yn enwedig mewn meysydd llai datblygedig fel gofal cymdeithasol. Mae diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am gyfleoedd datblygu gyrfa ymchwil ac angen sefydlu rhaglen waith er mwyn adnabod sut y gellir gwneud gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy ymwybodol o ymchwil a gyrfaedd ymchwil. Byddai cael pecyn cyfathrebu i gefnogi'r gwaith hwn yn ddefnyddiol er mwyn codi ymwybyddiaeth.

I helpu yn hyn o beth, roedd nifer fawr o'r rhanddeiliaid yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol datblygu pwynt gwerthu unigryw ar gyfer gyrfaedd ymchwil yng Nghymru. Mae'n annhebygol y byddai Cymru yn gallu cystadlu gyda rhai o sefydliadau ledled y DU o safbwynt nifer a maint cyfleoedd gyrfa ymchwil, felly awgrymir bod angen pwynt gwerthu unigryw er mwyn denu a chadw ymchwilwyr. Roedd amryw o'r rhanddeiliaid yn awgrymu bod gan Gymru gyfle i ddarparu amgylchedd ymchwil a seilwaith cefnogol a ddylai arwain at ddenu a chadw ymchwilwyr a'u datblygu yn arweinwyr ymchwil y dyfodol. Awgrymodd rhanddeiliad arall y gellid mabwysiadu

dulliau blaengar o hyrwyddo gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, er enghraifft datblygu cymhwyster mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

13 Argymhellion ar gyfer y dyfodol: Gweledigaeth newydd ar gyfer llwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru

Strategaeth cyllido ac arweinyddiaeth

- 1 Datblygu llwybr gyrfa eglur, weledol a strwythurol ar gyfer holl ddisgyblaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws yr holl sectorau ac ar bob cyfnod mewn gyrfa
- 2 Buddsoddi mwy o arian mewn gyrfaodd ymchwil yng Nghymru er mwyn llenwi bylchau cyllido amlwg, tra'n meintioli graddfa'r gwahaniaeth mewn cyfleoedd ariannu ar gyfer ymchwilwyr ar draws y DU, er mwyn lefelu'r buddsoddiad.
- 3 Adolygu, asesu a mynd i'r afael â'r angen am adeiladu capasiti llwybrau gyrfaodd ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru, tra'n meintioli graddfa'r gwahaniaeth mewn cyfleoedd ariannu ar gyfer ymchwilwyr ar draws y DU
- 4 Ymchwil lechyd a Gofal Cymru i ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar y cyd ar ran Ymchwil lechyd a Gofal Cymru, HEIW a Gofal Cymdeithasol Cymru, er mwyn gwella gyrfaodd ymchwil yng Nghymru a chreu gweledigaeth ar gyfer datblygu capasiti a gallu ymchwil ymhlith gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol
- 5 Dylai Ymchwil lechyd a Gofal Cymru, Addysg a Gwella lechyd Cymru, a Gofal Cymdeithasol Cymru gydweithio i gefnogi a gwella gyrfaodd ymchwil gydag elfen o gydarwain.
- 6 Dylai Ymchwil lechyd a Gofal Cymru fuddsoddi mewn rôl arweinyddiaeth lefel uchel, i arwain y maes gwaith hwn, gan godi proffil gyrfaodd ymchwil, cydlynu datblygiadau cenedlaethol, cydweithredu ledled Cymru gyda phartneriaid allweddol a hyrwyddo cydweithio ar draws y DU.
- 7 Parhau i gydweithio gyda phartneriaid ariannu ledled y DU, gan gynnwys partneriaid ariannu y llywodraeth, cynghorau ymchwil ac elusenau er mwyn sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer ymchwilwyr Cymru, gan alluogi buddsoddiad gan nifer o arianwyr lle bo hynny'n addas.

Seilwaith

- 8 Creu gwasanaeth Cymru gyfan i ddarparu pecyn cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant ar ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu eu gyrfaodd ymchwil, er enghraifft trwy sefydlu Cyfadran Ymchwil lechyd a Gofal Cymru
- 9 Adolygu cynlluniau mentora ar draws Cymru, gyda'r bwriad o wella darpariaeth cynlluniau mentora ar gyfer ymchwilwyr a datblygu fframwaith safonol fel rhan o agwedd Cymru gyfan unedig.

10 Hyrwyddo cydlynu cefnogaeth ar gyfer gyrfaoedd ymchwil ar draws Cymru, yn ogystal â gwell cydweithrdiad ymysg rhanddeiliaid allweddol a grwpiau seilwaith, er mwyn hyrwyddo datblygiad gyrfaoedd ymchwil trwy rannu cyfrifoldeb

Diwylliant ac ecosystem

- 11 Gweithio gyda chyrff proffesiynol a phartneriaid ledled y DU i drafod cyfleoedd ar gyfer integreiddio ymchwil i mewn i hyfforddiant proffesiynol yn gynnar.
- 12 Archwilio mecanweithiau ar gyfer cefnogi sefydliadau GIG ac awdurdodau lleol i gynnwys ymchwil yn eu strategaethau ar gyfer recriwtio a chadw staff a chynllunau datblygu gweithlu, sefydlu amgylchedd ymchwil iach ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol
- 13 Cefnogi sefydliadau GIG ac awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn cefnogaeth ar gyfer gyrfaoedd ymchwil, buddsoddi mewn datblygu ymchwilwyr, amser wedi ei neilltuo ar gyfer eu hymchwilyr, creu swyddi arweinwyr ymchwil ac archwilio swyddi academaidd clinigol / meddygol
- 14 Gweithio gyda phrifysgolion i adnabod bylchau mewn arweinyddiaeth academaidd, cyfleoedd ar gyfer swyddi academaidd clinigol / meddygol a chwilio am ddulliau o sicrhau cyfleoedd gwaith tymor hir a diogel ar gyfer ymchwilyr mewn swyddi academaidd clinigol / meddygol ar y cyd

Cyfathrebu ac ymgysylltu

- 15 Datblygu pwynt gwerthu unigryw i ddenu a chadw ymchwilyr, er enghraifft canolbwyntio ar amgylchedd addas ar gyfer ymchwilyr
- 16 Datblygu rhaglen waith er mwyn codi ymwybyddiaeth a phroffil ymchwil ymysg gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, y sefydliadau sy'n eu cyflogi yng Nghymru, yn enwedig lle mae diffyg datblygiad
- 17 Datblygu cynlluniau i fonitro data cydraddoldeb, gwahaniaethau a chynhwysedd ymysg y boblogaeth ymchwil, cyhoeddi adroddiadau ar ddata a chynlluniau gweithredu er mwyn hyrwyddo cynrychiolaeth gyfartal i'r holl grwpiau yn y boblogaeth ymchwil yng Nghymru

Atodiad 1

Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Llywio Prosiect: Mehefin 2021

Datblygu a chynnal llwybrau gyrfa a hyfforddiant / datblygiad ymchwilwyr a chapasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru: adolygiad

1. Cefndir a Chyd-destun

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) wedi cychwyn prosiect ar y cyd sef llunio adolygiad o'r trefniadau ar gyfer llwybrau datblygu gyrfa a hyfforddiant/datblygiad gyrfa i ymchwilwyr a thrwy hynny sicrhau capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd yn prosiect yn archwilio trefniadau cyfredol ar gyfer datblygu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion, os yn addas, ar gyfer gwelliannau i'w hystyried gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac arianwyr / darparwyr eraill. Bydd y prosiect yn:

- a) Adnabod capasiti a gallu cynlluniau a systemau datblygu yng Nghymru
- b) Cymharu darpariaeth yng Nghymru gyda'r ddarpariaeth mewn gwledydd eraill yn y DU
- c) Archwilio'r hyn a wyddir am effeithiolrwydd darpariaeth gyfredol o ran datblygu capasiti a gallu cynhaliol mewn ymchwil iechyd a gofal
- d) Datblygu cyfres o argymhellion ar gyfer y dyfodol o ran gwella'r trefniadau ar gyfer datblygu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal

2. Pwrpas

Bydd Grŵp Llywio'r Prosiect yn:

- Cytuno ar y cynllun prosiect, gan gynnwys amcanion, sgôp, darpariaeth (cyfnodau a cherrig milltir allweddol), amserlenni a rhaglen waith
- Darparu cyngor ar allbwn y prosiect, sef adroddiad terfynol gydag argymhellion ar gyfer y dyfodol i ddatblygu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru
- Darparu cyngor ynghylch newidiadau i'r prosiect fel y bydd yn datblygu, helpu i oresgyn unrhyw heriau i weithrediad y prosiect
- Adolygu allbynnau'r prosiect ar y pwyntiau allweddol (map o gapasiti a gallu cyfredol cynlluniau datblygu a systemau yng Nghymru ac ar draws y DU; dadansoddi adborth oddi wrth randdeiliaid ac ymchwilwyr a llunio crynodeb o'r themâu allweddol) a darparu cyngor ar fwydo i mewn i'r adroddiad terfynol

- Adolygu'r argymhellion drafft ar gyfer datblygu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal a chytuno ar yr argymhellion terfynol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Cyngori ar gyfathrebiaeth a chynlluniau cynnwys rhanddeiliaid ar gyfer y prosiect
- Cyngori ar unrhyw broblemau gweithredu posibl i'w trafod gyda HCRW a HEIW ar ddiwedd y prosiect

3. Aelodaeth a Chadeirio

Bydd aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr oddi wrth:

- Adran datblygu Ymchwil LIC
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Polisi gweithlu LIC
- Eraill

Atodiad 2:

Y rhai a gyfwelwyd ar gyfer Cam 1

Enw	Cynrychioli	Dyddiad y cyfweiliad
Michael Bowdery	Adran Ymchwil & Datblygu Llywodraeth Cymru	26/04/21
Nicola Melody	Academi NIHR	12/05/21
Julie Simpson	Llywodraeth yr Alban	13/05/21
Clive Wolsley Sorcha Finnegan Gail Johnston	Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon	13/05/21
Julianne Bostock Kay Nunns	Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	24/05/21
James Fenton	Academi NIHR	10/06/21
Noel Faherty	British Heart Foundation Sefydliad y Galon Prydain	15/06/21
Jennifer Anderson	Cyngor Ymchwil Meddygol	17/06/21
Marjoelin Schapp	Cancer Research UK Ymchwil Cancr Prydain	17/06/21
Sara Marshall	Wellcome Trust	06/07/21

Atodiad 3

Cwestiynau ar Lwybrau Gyrfaoedd Ymchwil ar gyfer Arianwyr / Rhanddeiliaid

1 Y Prosiect

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymgymryd â phrosiect ar y cyd i adolygu'r trefniadau ar gyfer llwybrau datblygu gyrfaoedd a hyfforddiant i ymchwilwyr a thrwy hynny gynyddu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym yn benodol yn archwilio'r modd y mae systemau a llwybrau ar gyfer hyfforddiant, datblygu gyrfa a chefnogaeth i ymchwilwyr yn gweithio, archwilio os ydynt yn addas i bwrpas a pha welliannau y dylid eu hystyried.

Bydd y prosiect yn archwilio trefniadau cyfredol ar gyfer datblygu capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru ac yn llunio argymhellion ar gyfer gwelliannau i'w hystyried gan Ymchwil Iechyd a Gofal, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac arianwyr / darparwyr eraill.

Er mwyn hyrwyddo'r adolygiad, buasem yn hoffi casglu barn yr arianwyr a'r rhanddeiliaid er mwyn derbyn gwybodaeth ac adborth ar y cyfleoedd a'r gefnogaeth y maent yn ei gynnig i gymuned ymchwil Cymru.

2 Eich Adborth Chi

Mae'r adran ganlynol yn cynnwys cwestiynau y buasem yn hoffi derbyn eich adborth arnynt. Rydym yn anfon y cwestiynau hyn atoch ymlaen llaw ond byddwn yn cynnal cyfweiliad anffurfiol efo chi i ofyn y cwestiynau a chofnodi eich atebion. Ni ddylai'r cyfweiliad gymryd mwy na 1- 1.5 awr.

Byddwn yn trafod yr adborth gyda chydweithwyr yn RDD, Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel rhan o drafodaethau ynghylch llwybrau gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru.

Amdanoch chi

Cwestiwn 1

Byddwchystal â rhoi manylion eich sefydliad presennol a'ch rôl gyfredol.

Cyfleoedd hyfforddi a datblygu (os yn addas)

Cwestiwn 2

Pa gyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa ymchwil ydych yn eu cynnig / cefnogi? Os 'dim' rhowch fanylion. Os oes, a ydy'r cyfleoedd hyn yn agored i ymgeiswyr lledled y DU?

Cwestiwn 3

Sut byddwch yn hysbysebu'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu yr ydych yn eu cynnig?

Cwestiwn 4

Ydy'r cyfleoedd hyn yn agored i ymgeiswyr yng Nghymru? Os ydynt, pa lefel o ddiddordeb / faint o geisiadau ydych yn eu derbyn o Gymru a beth yw eu graddfa llwyddiant? A fydddech chi'n fodlon rhannu data ar eich cynlluniau efo ni?

Cwestiwn 5

Pa mor aml y byddwch yn cynnal y cynlluniau i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa ymchwil?

Cwestiwn 6

Ydych chi erioed wedi gwerthuso'r cynlluniau yr ydych yn eu cynnal i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa ymchwil?

Cwestiwn 7

Beth yn eich barn chi a gyflawnwyd trwy'r cynlluniau yr ydych yn eu cynnal i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa ymchwil? Rhowch fanylion.

Cwestiwn 8

Disgrifiwch yr effaith y mae'r cynlluniau yr ydych yn eu cynnal i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa ymchwil wedi ei gael ar ddatblygu capasiti a gallu ymchwil yn y DU ac yng Nghymru.

Hyrwyddwyr a rhwystrau wrth ddilyn gyrfa mewn ymchwil iechyd a gofal

Cwestiwn 9

Beth yn eich barn chi ydy'r prif alluogwyr ar gyfer hyrwyddo gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu gyrfa ymchwil? (recriwtio a chadw)

Cwestiwn 10

Beth yn eich barn chi ydy'r prif rwystrau i hyrwyddo gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu gyrfa ymchwil? Sut y gellir goresgyn y rhain? (recriwtio a chadw)

Gwelliannau yn y dyfodol er mwyn gwella hyfforddiant a llwybrau gyrfa

Cwestiwn 11

Pa welliannau y gellir eu gwneud yn y dyfodol i alluogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu gyrfa ymchwil ?

Cwestiwn 12

Sut y gallwn orau ddatblygu capasiti a gallu ymchwil ymhlith gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol?

Cwestiwn 13

Sut y gallwn orau ddatblygu capasiti a gallu ymchwil ymhlith gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU?

Cwestiwn 14

Rhoddwch unrhyw wybodaeth berthnasol arall nad ydych wedi ei roi hyd yma ond y buasech yn hoffi ei rannu.

Atodiad 4

Rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer Cam 2a

Enw	Cynrychioli	Dyddiad y cyfweiliad
John Geen	Cyfarwyddwyr GIG R&D / CTUHB/ Gwyddonwyr Gofal Iechyd	11/06/21
Sue Bale	Cyfarwyddwyr GIG R&D / ABUHB/ Nyrsio	17/06/21
Nigel Rees	Cyfarwyddwyr GIG R&D / WAST/ Parafeddygon	28/06/21
Mererid Evans/ Libby Batt	Cyfarwyddwyr GIG R&D / Velindre	30/06/21
Alisha Davies	Cyfarwyddwyr GIG R&D / PHW	06/07/21
Leighton Phillips	Cyfarwyddwyr GIG R&D / Hywel Dda	22/07/21
Charlotte Drury – Service Manager	Awdudodau Lleol/ Sir Fynwy	16/06/21
Ioana Plesa – Workforce Development Manager and PQ Chair	Awdudodau Lleol / Caerffili	21/06/21
Sarah Bartlett	RICs/ Awdudodau Lleol /Sir Ddinbych	27/07/21
Phillip James	Met Caerdydd	21/07/21
Steven Riley	Prifysgol Caerdydd	16/08/21
Sion Williams	Prifysgol Bangor	22/07/21
Amanda Roberts- Jones & colleagues	Tim Datblygu Ymchwilwyr, Prifysgol Caerdydd	28/09/21
Jayne Noyes	Prifysgol Bangor	29/09/21
Andrew Westwell	Prifysgol Caerdydd	06/10/21
Kathryn Peall	WCAT	01/07/21
Gina Dolan/ Roiyah Saltus	RCBC	08/07/21

Paul Brocklehurst	Cymuned Ysgolorion/ CTUs/ Deintyddiaeth	15/06/21
Jayne Goodwin	Nyrsio / S&D/ NMAHPs	07/07/21
Jane Hopkinson	NMAHPs (Cancer perspective)	21/10/21
Sarah Hiom	Fferylliaeth	17/08/21
Anne Freeman/ Prof Phillip James	Strôc	21/07/21
Ceri Battle	Ffisiotherapi	27/07/21
Kate Button	Ffisiotherapi	31/08/21
Nia Jones	Podiatri	16/09/21
Martin Elliot	Gofal cymdeithasol/ HEIs	10/06/21
Donald Forrester	Gofal cymdeithasol/ HEIs	15/06/21
Nina Maxwell	Gofal cymdeithasol/ HEIs	05/07/21
Lisa Trigg	Gofal cymdeithasol cymtu	22/07/21
Sue Channon	RDCS	07/07/21
Kerry Hood	CTUs	15/07/21
Dr Harry Ahmed	Ymchwilyr	30/06/21
Matt Morgan	Arweinwyr Arbenigol	05/07/21

Atodiad 5

Arolwg o Lwybrau Gyrfaoedd Ymchwil ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol

Y Prosiect

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymgymryd â phrosiect ar y cyd i adolygu'r trefniadau ar gyfer llwybrau datblygu gyrfaoedd a hyfforddiant i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol gan weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydym yn archwilio os ydynt yn addas i bwrpas ac yn trafod pa welliannau y gellid eu gwneud. Bydd y canlyniadau ar ffurf cyfres o argymhellion ar gyfer y modd y gellir gwella llwybrau gyrfa ymchwil yng Nghymru.

Er mwyn hyrwyddo'r adolygiad, buasem yn hoffi casglu barn gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ar bob cam yn eu gyrfa er mwyn derbyn gwybodaeth ac adborth ar y cyfleoedd, y gefnogaeth a'r profiadau a gawsant wrth ddilyn gyfa ymchwil ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

Eich adborth

Os ydych yn weithiwr proffesiynol ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol gyda diddordeb mewn ymchwil, buasem yn hoffi clywed gennych.

Efallai eich bod â diddordeb mewn ymchwil, wedi gwneud ychydig yn y gorffennol, wedi derbyn cyllid datblygu gyrfa neu ddoethuriaeth neu / ac yn awyddus i fod yn ymchwilydd. Efallai eich bod yn ymchwilydd cynnar neu ganol tymor neu yn gweithio mewn practis ac awydd gyrfa ymchwil. Os yw rhywfaint o hyn yn berthnasol i chi, buasem yn falch o dderbyn eich barn a chlywed am eich profiadau.

Rydym eisiau clywed gan staff iechyd a gofal cymdeithasol ar draws pob disgyblaeth gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) staff nyrsio, gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol, gweithwyr cymdeithasol, gwyddonwyr iechyd, parafeddygon a fferyllwyr yn ogystal ag unrhyw ymchwilwyr anghlinigol a'r rhai sydd yn gweithio mewn iechyd cyhoeddus, gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol.

Mae'r arolwg hwn yn cynnwys cyfres fer o gwestiynau yr hoffem eu gofyn i chi ac a fydd o gymorth i hyrwyddo gwelliannau mewn lwybrau gyrfaoedd ymchwil yn y dyfodol. Byddwn yn trafod yr adborth fel rhan o'r trafodaethau am lwybrau gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru, er mai di-enw fydd eich ymatebion.

Fe fyddwn yn ddiolchgar iawn os gallwch gwblhau'r arolwg hwn erbyn 12pm ar ddydd Llun, 26ain Gorffennaf 2021. Diolch yn fawr am eich amser, rydym yn gwerthfawrogi eich help.

Amdanoch chi

Byddwch cystal â rhoi manylion eich cyflogwr presennol a'ch rôl. Hefyd a wnewch chi gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â rhannu swyddi rhwng sefydliadau e.e. Sefydliad Addysg Uwch a'r GIG / Awdurdod Lleol.

- 1 Beth yw'r lefel uchaf yr ydych wedi ei gwblhau mewn addysg?
- 2 Ydych chi wedi gwneud unrhyw ymchwil? Os ydych, atebwch gwestiynau 4 – 5 isod.
- 3 Dangoswch sut y buasech yn disgrifio eich gyrfa ymchwil hyd yma.
 - Cyn-ddoethurol
 - Doethurol
 - Ôl-ddoethurol (cynnar)
 - Ôl-ddoethurol (uwch)
 - Cadeirydd
- 4 Sut y buasech yn disgrifio eich rôl bresennol mewn ymchwil e.e. Prif Archwilydd (ar dreial aml-ganolfan neu ganolfan unigol), Prif Archwilydd (h.y. arweinydd safle mewn treial aml-ganolfan), Archwilydd arweiniol neu Gyd-archwilydd (ar astudiaethau o fath arall), Ymchwil Cefnogi a Chyflawni (Nyrs Ymchwil, Cymhorthydd Ymchwil ayyb). Hefyd dangoswch pa gyfran o'ch amser a dreulir ar ymchwil ar hyn o bryd.
- 5 Oes gennych chi unrhyw obeithion am yrfa ymchwil yn y dyfodol? Os oes, sut y bwriadwch eu cyflawni?

Cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu

- 6 Pa gyfleoedd (os oedd rhai), cyllid a / neu gefnogaeth ydych wedi eu derbyn ar gyfer hyfforddiant ymchwil a datblygu gyrfa? Disgrifiwch y cyfleoedd a'r gefnogaeth, gan gynnwys pwy oedd yn ei ddarparu. Os mai DIM, rhowch fanylion.
- 7 A yw'r sefydliad sy'n eich cyflogi wedi darparu amgylchedd gefnogol sydd yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad ymchwil a / neu gyfleoedd gyrfa? Disgrifiwch gan nodi cryfderau a gwendidau eich amgylchedd gwaith.

- 8 Beth ydych wedi ei gyflawni o ganlyniad i'r cyfleoedd hyfforddiant ymchwil a datblygu? Disgrifiwch yr effaith y mae'r cyfleoedd hyn wedi ei gael ar eich gyrfa.
- 9 Pa gyfleoedd gyrfa, hyfforddiant a datblygiad gyrfa fydddech yn eu hystyried yn ddefnyddiol ar gyfer dilyn eich gyrfa ymchwil yn y dyfodol/

Hyrwyddwyr a rhwystrau i Ddilyn Gyrfa Ymchwil

- 10 Beth yn eich barn chi yw'r prif alluogwyr i hyrwyddo gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol o ran datblygu gyrfa ymchwil?
- 11 Beth yn eich barn chi yw'r prif rwystrau o ran hyrwyddo gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu gyrfa ymchwil?

Gwelliannau ar gyfer y dyfodol

- 12 Pa welliannau y gellid eu gwneud yn y dyfodol er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu gyrfa ymchwil a datblygu capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru?
- 13 A fydddech chi yn fodlon i ni gysylltu â chi er mwyn cael mwy o fanylion am unrhyw un o'r atebion a gyflwynwyd yn yr arolwg hwn? Os ydych, rhowch eich enw a'ch manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda.

Diolch i chi am gwblhau yr arolwg. Os y buasech yn hoffi trafod eich adborth, cysylltwch â Helen Grindell trwy ebost i drefnu.


Atodiad 6

Arolwg Ymchwilwyr


Cam 2b: Casglu barn gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ac ymchwilwyr

Cafodd arolwg ei ddatblygu a'i dosbarthu ymhlith y Grŵp Llywio Prosiect (yn cynnwys HEIW a Gofal Cymdeithasol Cymru), yr holl randdeiliaid a gyfwelwyd fel rhan o gam 2a, Canolfannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Uwch Arweinyddion Ymchwil, Arweinyddion Arbenigol, Cyfarwyddwyr R&D, a chafodd yr arolwg ei hyrwyddo hefyd ym mwletin Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru nifer o weithiau tra'r oedd yn agored. Gellir gweld cwestiynau'r arolwg yn Atodiad 1. Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 186 ymateb. Gellir gweld manylion yr ymatebwyr yn y diagramau isod.


- **Cyflwyr Cyfredol yr Ymatebwyr**




- **Lefelau Uchaf Addysg ymhlith Ymatebwyr**




- **Profiadau Ymchwil Ymatebwyr**



- **Gyrfaoedd Ymchwil Ymatebwyr hyd yma**



- **Rolau Cyfredol Ymatebwyr mewn Ymchwil**



- **Gobeithion Ymatebwyr o ran Gyrfaedd yn y Dyfodol**

Roedd gan ymatebwyr amrywiaeth eang o obeithion ar gyfer gyrfa mewn ymchwil, gyda 45 mewn nifer yn ymateb. Fodd bynnag, y mwyaf cyffredin oedd cwblhau PhD (n=23), arwain prosiectau ymchwil (n=10), cwblhau meistri (n=10), parhau i wneud ymchwil (n=9), derbyn swydd academaidd glinigol ar y cyd (n=8), ennill arian grant (n=8), cyfuno ymchwil gyda rôl feddyfol, glinigol bresennol (n=7), mynediad at arian ôl-ddoethurol a chyfleoedd (n=7), dod yn athro (n=6) a chynhyrchu gwybodaeth newydd yn y maes cyfredol (n=5).

Atodiad 7

Adborth perthnasol i gyfleoedd ariannu ar draws y DU a gweithio mewn partneriaeth

- Cyllid annigonol ar y funud ac anhegwch cyllido yng Nghymru o gymharu gyda gwledydd eraill y DU – dylid anelu at fod yn gyfartal gyda Lloegr.
- Mae mwy o gyfleoedd yn Lloegr a rhagor o gynlluniau ariannu a mwy o fuddsoddi. Mae ariannu yn gweithio mewn cylchoedd enfawr ac mae gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr yn y cyllid sydd ar gael, a Chymru yn derbyn llawer iawn llai. Mae llwybrau gyrfaedd NIHR yn ymddangos yn llawer mwy soffistigedig.
- Cyfrannu mewn cynllun NIHR Cymrodoriaethau i Bawb: unwaith y byddwch wedi derbyn cymrodoriaeth nid oes llawer yn digwydd. Yn Lloegr, mae llawer mwy yn ennill cymrodoriaeth – llawer mwy o ddeiliaid cymrodoriaethau yn Lloegr – cynhelir mwy o ddigwyddiadau datblygu yn Lloegr a darperir cefnogaeth ayyb ar gyfer pobl sydd â chymrodoriaeth nad oes gan ddeiliaid gwobrau o Gymru fynediad atynt. Angen mwy o gytundebau mewn lle i integreiddio deiliaid cymrodoriaethau NIHR Cymru gyda deiliaid cyfatebol o Loegr. Hefyd nid yw'n glir pa bryd mae Cymru yn optio i mewn ac yn optio allan o bob rhaglen, gan arwain at ddrwywch ymysg ymchwilwyr Cymru yn hylch beth y gellir gwneud cais amdano a beth na ellir.
- Mwy o gyfleoedd am gymoth traws ariannol oddi wrth arianwyr ledled y DU ac arian cyfatebol ar draws sefydliadau o fewn Cymru

Rheolaeth a natur y cynlluniau ariannu

Yr angen am wneud cynlluniau ariannu yn fwy deniadol drwy hwyluso ad-daliad ariannol rhesymol sydd yn cyfateb i gyflog

- Nid oes gan Gymru gynllun PhD gyda chyflog – stipend yn unig yw'r cynllun presennol
- Angen cynlluniau ariannu gyda chyflog – nid stipendau – ar gyfer ysgoloriaethau
- Angen gwell modelau ariannu yn y cynlluniau presennol ar gyfer ad-dalu staff gan nad yw stipendau yn ddigonol ar gyfer ymchwilwyr
- Angen mwy o hyblygrwydd o ran cael mynediad at gynlluniau ariannu
- Angen prosesau ymgeisio clir a hawdd eu deall
- Byddai'n ddefnyddiol annog mwy o wahaniaeth mewn galwadau ariannu
- Rydym angen datblygu capasiti ymchwil gan ein bod yn canolbwyntio gormod ar ragoriaeth ymchwil. Ni ellir datblygu ymchwilwyr trwy ddefnyddio rhagoriaeth ymchwil

- Mae'n bwysig buddsoddi mewn gyrfaodd ymchwil lle mae llai o gapasiti a gallu ymchwil i ariannu meysydd sydd angen eu cryfhau. Mae angen cynnal cynlluniau ariannu cenedlaethol ar sail rhagoriaeth yn rhedeg ochr yn ochr gydag ariannu lleol er mwyn datblygu capasiti a gallu ymchwil
- Cydnabyddiaeth bod profiad ymchwil perthnasol lawn mor bwysig o ran meini prawf na bod gyda PhD – fe ddylai fod llai o ffocws ar gyrhaeddiad addysgol a chymwysterau
- Gellid addasu CRTA a'i dargedu ar gyfer staff ymchwil clinigol a staff cyflawni
- Gellid targedu CRTA tuag at grwpiau proffesiynol penodol
- CRTA: nid yw'n cynnwys amser digonol – pan fydd y wobwr yn dod i ben mae staff y GIG yn cael eu hamsugno yn ôl i'r GIG ac mae'r gefnogaeth wedi diflannu – mae hyn yn wastraff buddsoddiad. Byddai'n well cael cefnogaeth 5-mllynedd gyda grwpiau ymchwil
- Angen sicrhau a rheoli perfformiad y gefnogaeth oddi wrth sefydliadau sy'n cyflogi, gan gynnwys er enghraifft fuddsoddiadau'r GIG y tu hwnt i'r CRTA
- CRT yn canolbwyntio ar yr elfen glinigol ac ar gefnogi uwch ymchwilwyr
- Disgwylir i bobl CRT fod â llawer o brofiad ymchwil sydd yn anfantais i lawer
- Ni chaiff cynlluniau eu cynnal yn ddigon aml – dylid eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Arian ar gael gan HCRW unwaith bob dwy flynedd yn unig sydd yn amser hir rhwng cymrodoriaethau
- Angen darparu mwy o ymrwymadau ariannu tymor hir
- Angen mwy o gefnogaeth ar gyfer cynlluniau ariannu bach a chynlluniau cychwynnol er mwyn helpu pobl i ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil
- Dylid ail gyflwyno llwybr cenedlaethol tuag at gynllun ariannu portffolio
- Buddsoddi mewn cynlluniau datblygu PI
- Yn y GIG / awdurdodau lleol, byddai o gymorth buddsoddi arian craidd ar gyfer neilltuo amser
- Angen hyfforddiant mwy strwythurol i gefnogi cymrodoriaethau. Mae cymrodoriaethau yn ardderchog a'r gefnogaeth yn dda ond mae angen mwy o strwythur i'r gefnogaeth
- Dylai cyfleoedd ôl-ddoethurol ganolbwyntio llai ar academia a mwy ar ddenu staff ar lefel clinigol / meddygol
- Nid yw'r arian yng Nghymru yn cael ei ddsbarthu dros Gymru gyfan gan fod y gwobrau yn cael eu hennill amlaf gan C&V UHB
- Mae RCBC yn ardderchog, yn enwedig yr elfennau cyntaf i ymchwil, ond mae'r gylideb yn isel a'r cyfleoedd yn brin. Angen mwy o fuddsoddiad yn RCBC a mentrau cyffelyb
- Nid yw'n hawdd deall meini prawf cymhwysedd ar gyfer e.e. fferyllwyr - nid ydynt yn sefydlog ac ymddengys eu bod yn newid yn flynyddol a fesul galwad. Nid yw hyn o unrhyw help.

Adborth ar lefel sector

- Iechyd Cyhoeddus: rhagor o gyfleoedd ariannu sydd ar gael i iechyd cyhoeddus
- Gofal Cymdeithasol:
 - Annhegwch ariannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a'r angen dybryd am fuddsoddi mewn gyrfaoedd ymchwil mewn gofal cymdeithasol sydd, er enghraifft, yn adlewyrchu'r cyfleoedd a gynigir gan Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol yr NIHR ar gyfer cynlluniau fel gwobrau datblygu, cymrodoriaethau, gwobrau datblygu arweinwyr ymchwil, gwobrau arweinwyr ymchwil ar sail practis, interniaethau, rhaglenni hyfforddi ayyb.
 - Datblygu cynlluniau wedi eu targedu neu wedi eu neilltuo ar gyfer gofal cymdeithasol
 - Ni ellir defnyddio modelau ar gyfer iechyd a'u hagog allan ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae'n ofynnol iddynt fod yn gwbl berthnasol i staff gofal cymdeithasol
 - Nid yw'r cynlluniau presennol yn addas ar gyfer staff gofal cymdeithasol gan nad yw'n hawdd i staff awdurdod lleol gael mynediad atynt. Mae'n rhaid i arolygwyr ac nid unigolion wneud cais am ysgoloriaethau PhD ac i wneud cais am y cymrodoriaethau, mae'n rhaid i chi fod yn gyflogedig gyda sefydliad addysg uwch.
 - Angen datblygu cynlluniau wedi eu targedu neu arian wedi ei neilltuo ar gyfer disgyblaethau sydd wedi eu tangynrychioli megis gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr awdurdodau lleol. Ar y cyfan mae angen i ragor o gynlluniau fod wedi eu targedu tuag at staff awdurdodau lleol
 - Mae'n ofynnol i ddatblygu gyrfa adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn nhermau lefel aeddfedrwydd, lefel cefnogaeth mewn Awdurdodau Lleol a bregusrwydd academia o fewn gofal cymdeithasol
 - Gwneud internaethau ar gael o fewn gofal cymdeithasol
- GIG: dim llwybr gyrfa ar gael ar gyfer gyrfa ymchwil yn y GIG
- Gofal Sylfaenol: mae'n llawer haws cael mynediad at ymchwil o Gofal Eilaidd nac ydyw o Gofal Sylfaenol

Adborth ar lefel disgyblaeth

- Nid yw cynlluniau sydd wedi eu targedu ar gyfer disgyblaethau a chynlluniau generig yn hollol ar wahân a byddai o gymorth cael cymysgedd o'r ddau fath
- Mae mwy o gyfleoedd ar gael ar gyfer ymgeiswyr sydd heb fod yn feddygol
- Ymgeiswyr sydd heb fod yn feddygol – mwy o rwystau iddynt gan fod yn rhaid iddynt ennill mwy o gymwysterau er mwyn derbyn yr un cyfle mewn ymchwil /

llwybrau gyrfa, nid oes digon o gyfleoedd iddynt ac mae'n rhaid iddynt weithio'n galetach i gael yr un canlyniadau â'r rhai an-feddygol

- Mae angen datblygu ymhellach y llwybrau ar gyfer pobl glinigol an-feddygol ac mae angen cyllid i wneud hyn.
- Datblygu cynlluniau wedi eu targedu neu eu neilltuo ar gyfer disgyblaethau sydd wedi eu tangynrychioli megis NMAHPs a deintyddion.
- NMAHPs- wedi cwblhau PhD ni allant weld llwybr gyrfa eglur i mewn i academia wedyn – nid oes ganddynt y rhwydweithiau ymchwil fel sydd gan weithwyr meddygol – maent yn llai agored i ymchwil ac mae hyn yn gwneud popeth yn anoddach – mae mwy o rwystrau ac mae'n rhaid iddynt ymladd mwy am y cyfleoedd – nid yw cyfleoedd gyrfa ar gael i NMAHPs.
- Ystyried llwybr ymchwil a chynlluniau wedi eu targedu ar gyfer staff cyflawni ymchwil
- Annog ymchwilwyr sydd yn aml-ddisgybledig ac yn hyblyg o safbwynt eu maes gwaith
- Doctoriaid a deintyddion yn unig all gael gyrfa ymchwil clinigol – mae'n rhaid i'r gweddill ohonom gymryd ein siawns. Mae'r modd y caiff ymchwil ei gefnogi yn ffafrio meddygaeth
- Os oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa ymchwil – mae'n haws dilyn gyrfa yn y maes os mai medic ydych. Mae wedi ei gynnwys yn yr hyfforddiant, maent yn cael profiad / blas o ymchwil o fewn eu hyfforddiant ac yn bendant maent yn cael y cyfleoedd i fod yn rhan ohono.

Adborth yn ymwneud â'r camau mewn gyrfa ymchwil

- Angen buddsoddi mwy o arian ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnar a chanol gyrfa.
- Angen i'r cynlluniau fod wedi eu targedu fwy ar gyfer cefnogi pobl ar gychwyn eu gyrfa.
- Dim ar gael ar gyfer y cam cyn-ddoethurol
- Angen rhagor o arian ar gyfer ymchwil doethurol ac ôl-ddoethurol.
- Mwy o gyfleoedd PhD ac arian ar gyfer PhDs, yn ogystal ag amser wedi ei neilltuo ar gyfer cwblhau PhD, mwy o gymorth ar gyfer pobl yn gwneud PhDs tra'n cynnal eu swyddi clinigol a datblygu gallu ymchwilwyr ifanc i ddilyn academia clinigol
- Nid oes digon o bobl yn gwneud PhDs fel paratoad ar gyfer gyrfaedd ymchwil
- Angen buddsoddi mewn rhagor o gynlluniau ariannu ôl-ddoethurol
- Cyfleoedd ar gyfer amser wedi ei neilltuo ar lefel iau
- Mewn academia, mae'r prif fylchau rhwng y blynyddoedd cynnar a WCAT a rhwng canol gyrfa a'r blynyddoedd hwyrach
- Yn y camau canol, mae'r bobl glinigol yn 'crwydro o gwmpas'. Maent wir angen strwythur, hyfforddiant da a mentoriaeth.
- Pan fydd ymchwilwyr yn mynd heibio i gam datblygiad gyrfa gynnar, nid yw'r hyfforddiant cystal

- Unwaith y bydd ymchwilydd wedi cwblhau cymrodoriaeth, maent yn syrthio dros y dibyn. Y disgwyliwd yw, unwaith y bydd ymchwilydd wedi cwblhau cymrodoriaeth bydd ganddynt yr arbenigedd angenrheidiol i ddatblygu ac ennill grant i ddod yn ymchwilydd annibynnol – yn aml nid yw hyn yn wir, bydd arnynt angen cefnogaeth bellach
- Mae angen mwy o fuddsoddiad yn y cam canol gyrfa ac ar gyfer cymrodoriaethau canolradd
- Mae gwahaniaeth mawr rhwng ymchwilydd iau a rhai uwch felly mae bwlch – cynladwyedd – ailfuddsoddi mewn swyddi – yn arbennig uwch swyddi
- Mae trosglwyddiadau rhwng camau gyrfa yn beryglus i unigolyn gyrfa gynnar ac mae cefnogaeth bryd hynny yn bwysig iawn
- Mae trosglwyddo o fod yn ymchwilydd ôl-radd i fod yn ymchwilydd canol gyrfa yn anodd ac mae cefnogaeth yn hanfodol. Bwlch mawr hefyd yn y cam ôl-ddoethurol
- Mae gwneud ymchwil yn risg, yn enwedig symud i swydd cymrodoriaeth ôl-ddoethurol, mae'r amser trosglwyddo yn amser dyrys (h.y PRG- ECR- gyrfa ganol – cymrodoriaeth uwch), gall y cyfnodau hyn fod yn rhai anodd iawn ac yn aml rydym yn colli pobl. Mae heriau a rhwystrau yn ystod y cyfnodau pwysig hyn ac mae'n hanfodol cael y cyngor iawn ar yr amser iawn e.e. trwy fentoriaeth ac amgylchedd cefnogol. Yn aml mae pobl yn syrthio drwy'r bylchau hyn
- Ariannu pontio ar gyfer trosglwyddiadau
- Byddai prosiect wedi ei ariannu ar gyfer ymchwilydd iau ac uwch ar y cyd yn help ar gyfer rhannu gwybodaeth a phrofiad.
- Mae'n boenus trosglwyddo o fod yn glinigol i fod yn academaidd gan nad ydych yr un o'r ddau
- Angen cyfleoedd ariannu ar gyfer camau gyrfa gynnar, canol gyrfa, ac ôl-ddoethurol ar draws yr holl sbectrwm

Cyfleoedd i bawb

- Mae cyfartaledd cyfle yn wir bwysig ar gyfer pob cefndir ymchwil a phob proffesiwn ar draws y DU. Mae angen bod yn ymatebol ac yn ymwybodol o'r heriau fel y maent yn ymddangos a pha ymyrraeth sydd ei angen ar wahanol amserodd, er enghraifft y ffocws presennol ar ofal cymdeithasol
- Mynediad i bawb at gynlluniau ariannu